Samuel Hawkes

YR

YMOFYNYDD.

[Y DRYDEDD GYFRES.]

Cylchgrawn Misol Undodiaid Cymru.

Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

Cyf. II. MAWRTH, 1869. Rhif. 3.

CYNNWYSIAD.

Pechod Anfeidrol a Chosp Anfeidrol 53
Anerchiad Agoriadol 55
Pregeth ar Demtiad yr Iesu 62
Undodiaid Enwog a Chynydd Undodiaeth 67
Y Weinyddiaeth 69
Agoriad y Senedd 72
Ysgol Sabothol Pantydefaid 74
Awgrym i Weinidogion 74
Y Tafod a'r Galon 75
Priodas 75
Marwolaethau 76

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "JOURNAL," GUILDHALL-SQUARE.

PRIS TAIR CEINIOG.

YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MAWRTH, 1869.

PECHOD ANFEIDROL A CHOSP ANFEIDROL.

Yr athrawiaethau poblogaidd o "Anfeidrol Haeddiant" a "Duwdod Crist' ydynt efeilliaid, a barnwyf y byddant farw gyd â'u gilydd megis y maent yn, a chwedi byw gyd â'u gilydd. Rhodder ergyd i un, mae'r llall yn teimlo. Pe na buasai eisiau Anfeidrol Iawn ni buasai eisiau bod Crist yn Dduw, a chygynted ag y gwawrio dydd olaf yr athrawiaeth hon credwyf na bydd i'r athrawiaeth o Dduwdod Crist ei goroesi. Cyfeiliornadau ydynt, y naill yn angenrheidiol i'r llall. Yn yr erthygl ganlynol cynygir ychydig nodiadau ar yr ymadroddion iachusgred ond cyfeiliornus hyny, sef "Pechod Anfeidrol," a "Chosp Anfeidrol." Ceisir dangos mor ddireswm, mor ddiysgrythyr, ac mor wrthun ydynt. Mewn rhifyn dyfodol o'r Ymofynydd caiff ymddangos erthygl ychwanegol ar yr hyn a elwir "Iawn Anfeidrol."

Yn debyg yn y modd yma y mae ein brodyr "iawn ffyddiog" yn ymresymu: mae pob trosedd yn erbyn Bod Anfeidrol yn bechod anfeidrol, ac o ganlyniad yn haeddu cosp anfeidrol. Mynych iawn y gwneir yr haeriad hwn mewn pamphledau, pregethau, ac ymddiddan cyffredin. Ar yr olwg gyntaf mae'r ymresymiad fel y dywed y *Sais* yn eithaf *plausible*, hyny yw, yn eithaf tebyg o fod yn wirionedd. Mae y lluaws arwynebol ac anysgedig yn methu canfod ei wendid, ac oblegid hyny yn ei gymeradwyo. Mae rhai hefyd, er ddim yn cael eu hargyhoeddi, yn cael eu dyrysu ganddo. Tebygwn i fod y sawl sydd yn credu yn yr athrawiaeth o anfeidrol ddrwg pechod ac mewn anfeidrol gosp fel canlyniad ar bwys ymresymiad o'r fath uchod yn debyg i'r "gwr ffol yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y tywod."

Yn gyntaf, y mae'n ymddangos i mi nad yw yn bossibl y gallai dyn gyflawni pechod *anfeidrol*. Mae pob bod yn y bydysawd, mae pob peth crëedig, wedi derbyn gan ei Greawdwr ei natur neu ei anian neillduol ei hun; mae ei holl weithredoedd i fod yn unol â'i natur; nis gall weithredu uwchlaw neu yn groes i'w natur. Nis gall careg dyfu fel coeden; nis gall coeden newid ei man fel y myno fel anifail; nid yw malwoden yn meddu ar rym a synwyr elyffant; nid yw'r elyffant yn ogyfuwch â'r anwariad mewn deall; mae'r anwariad yn llai ei wybodaeth nâ'r bugeil-was; nis

gall bugeil-was werthfawrogi llafur meddyliol dyn dysgedig; ychydig o ddynion dysgedig a allant ddilyn Newton ar hyd y llwybrau a'i harweiniasant ef i anfarwoldeb; yr oedd Newton yn llai ei amgyffrediadau nâ'r angylion; ac nis gall yr angylion synied fel y mae Duw yn synied, na gweithredu fel y mae Duw yn gweithredu. Felly y mae i bob peth ei natur ei hun, ei ddoniau a'i alluoedd ei hun, a thu allan i gylch y doniau a'r galluoedd yma nis gall wneuthur dim. Mae pob hanfod fel hyn yn *feidrol*; mae terfyn wedi cael ei osod tu hwnt i ba un nis gall fyned na gweithredu. Meidrol yw dyn; hyny yw, y mae wedi ei osod i symud o fewn cylch terfynedig. Ei alluoedd corphorol ydynt yn derfynedig; y mae eu heithaf wedi cael ei fesur a'i nodi allan: nis gall dyn, er pob ymdrech, byth ddyfod yn feddianol ar gryfder y lefiathan; nis gall symud mynyddoedd a'u taflu i'r môr. Y mae i'w alluoedd meddyliol hefyd eu terfynau priodol; nis gall dyn gyflawn amgyffred bodoliaeth yr amrywiol wrthrychau dyddorol gan ba rai y mae yn cael ei amgylchynu; y mae cyfansoddiad a gwasanaeth, neu ddybenion, yr holl greaduriaid a'r llysiau, y mae yn edrych ac yn sylwi mor fanol arnynt bob dydd, ym mhell tu hwnt i'w ddeall; ychydig, mewn cydmariaeth, a wyr am beirianwaith dyrys a chywraint ei gorph ei hun; a llai fyth am natur ei feddwl ei hun. Ar holl feusydd gwybodaeth y mae muriau wedi cael eu hadeiladu, neu ffosydd wedi cael eu cloddio i rwystro dyn, mal pe byddai, i fyned ym mhellach. Ac am y Bod Goruchaf, bach hyd at ddim wyr dyn marwol am dano:

"Pa ddyn erioed a'i chwiliodd allan?
Pwy 'mhlith angylion penna'r Nef?
Pell iawn uwchlaw pob meidrol anian,
Y Mawr goruchel ydyw Ef."

Mae dyn gan hyny yn *feidrol*, o ran ei alluoedd corphorol ac o ran ei bwerau meddyliol, wedi ei gau o fewn terfynau. Y mae ei weithredoedd yn feidrol, ac y mae ei feddyliau yn feidrol. Yn awr gofynir y cwestiwn —Pa beth yw *pechod?* Onid meddyliau a gweithredoedd? Nid ydynt amgen na gwahanol enwau am yr un peth. Mae holl bechodau dyn gan hyny yn feidrol; oblegid meddyliau a gweithredoedd bod meidrol ydynt. Meddylier am fynyd fod pechodau dyn yn anfeidrol, yna y mae yn canlyn o angenrheidrwydd fod ei feddyliau yn anfeidrol; mewn geiriau eraill, fod dyn yn hollwybodol. Mae'n canlyn hefyd fod ei weithredoedd yn anfeidrol; mewn geiriau eraill fod dyn yn hollalluog; hyny yw, ei fod yn Dduw—ei fod yn meddianu holl briodoliaethau hanfodol y Jehofah. Yn sicr nid yw hyn yn bossibl; yn sicr nid oes ond un Bod anfeidrol yn yr holl greadigaeth, i allu, doethineb a daioni yr hwn, nid oes mesur na therfyn; yn sicr nid oes ond Un, yr Hwn nis gellir cyfyngu ei berffeithderau o fewn cylch meidroldeb. Fel hyn nid yw dyn yn anfeidrol, ond meidrol yw; nid yw ei feddyliau yn anfeidrol, ond meidrol ydynt; nid yw ei weithredoedd yn anfeidrol, ond meidrol ydynt; ei bechodau, y rhai nid ydynt amgen na'i feddyliau a'i weithredoedd, nid ydynt anfeidrol ond meidrol. Felly mae'n afresymol ac yn wrthun dweyd fod dyn *meidrol* wedi cyflawni pechod *anfeidrol.*

Os gwirionedd yw hyn, ac nis gall dim fod yn fwy o wirionedd, y mae yn canlyn fod yr ail ran o'r *argument* Galfinaidd yn ansafadwy,—sef fod

pechod dyn yn haeddu *cosp anfeidrol.* Un o reolau syml cyfiawnder, cyfiawnder cyffredin rhwng un dyn a'r llall, yw, fod y gosp i fod yn gymesur â'r trosedd. Yn unol â'r rheol hon yr ymddyga dynion tuag at eu gilydd fel aelodau cymdeithas. Mae calon, meddwl, a chydwybod dynoliaeth yn gyffredinol yn uchel dystiolaethu mai dyma yn unig beth yw cyfiawnder. Yn holl oesoedd y byd, mor belled ag y cyrhaedda hanes, ym mhob hinsawdd a gwlad, y mae'r gwirionedd hwn wedi cael ei gydnabod, a'i wneuthur yn rheol ymddygiad. Yng ngolwg cyfreithiau'r wlad y mae rhai troseddau o fwy ysgelerder na'u gilydd, ac yng ngweinyddiad y gosp nid yw hyn byth yn cael ei anghofio. Am rai math o droseddau y gosp benodedig ydyw dirwy, am eraill carchariad, am eraill alltudaeth, ac weithiau ni wna dim llai na marwolaeth y troseddwr y tro. Eto yn y tri dosbarth a enwyd, sef dirwy, carchariad, ac alltudaeth, mae yma wahaniaeth yn cael ei wneuthur; mae pwysau'r gosp yn ol *scale* neillduol, yn fwy neu yn llai yn ol natur y trosedd fyddo wedi cael ei gyflawni. Os dirwy fydd y gosp, mae'n amrywio o ychydig sylltau i fynu i ganoedd a miloedd o bunau; os carchariad, bydd y parhâd o hono yn amrywio o ychydig ddiwrnodau i lawer o flynyddoedd; a chyd â golwg ar alltudaeth, mae rhai yn cael eu *transporto* am ychydig flynyddoedd, ac eraill dros eu bywydau. Felly yr ydys yn gweled fod *dynion*, yn eu pryder dros ddiogelwch cymdeithas, yn cymeryd gofal neillduol fod llymder y gosp bob amser yn gyfatebol i faintioli'r trosedd. Ac "a fydd dyn marwol gyfiawnach nâ Duw? a fydd gwr yn burach na'i wneuthurwr?" Job iv. 17. A fydd i Dduw wneuthur dim ag a fyddai yn cael ei ystyried yn anghyfiawnder mewn dyn? A wna'r Hollalluog hefyd ddim cyfartalu'r gosp â'r trosedd? A wna Efe gospi pechod meidrol â chosp anfeidrol? Pe byddai i gyfreithiau'r wlad weinyddu y gosp o farwolaeth am drosedd ag na fyddid yn ei ystyried yn haeddu ond yn unig ychydig ddiwrnodau o garchar, oni byddai i bob dyn ym mhob man arswydo rhag y fath beth, a chrochwaeddi yn erbyn y fath weithred ddybryd o anghyfiawnder? Pa faint mwy anghyfiawn a chreulon yn y Bod Mawr, yr hwn sydd yn holldduoeth ac yn holl-ddaionus, fyddai ymweled â phechod meidrol, cyfeiliornad bod meidrol, â thrueni anfeidrol ei natur a'i barhâd! Nid yw pechodau dynion, gan hyny, yn haeddu cosp *anfeidrol.* Os felly, gofynaf pa angen oedd am iawn anfeidrol? R. M.

ANERCHIAD AGORIADOL.

TRADDODWYD yr anerchiad canlynol i Efrydwyr Coleg Henadurol Caerfyrddin, gan D. L. Evans, un o'r athrawon. Cyhoeddir ef yn awr yn yr YMOFYNYDD ar gais rhai o'i ddarllenwyr. Meddyliant na fyddai yn annyddorol i eraill heblaw Efrydwyr Duwinyddol, yn enwedig pan y mae yr egwyddor o Eglwys sefydledig yn debyg o gael ei dadleu yn fuan yn ein Senedd mewn cyssylltiad â'r Eglwys yn yr Iwerddon. Traddodwyd yr anerchiad yn Saesonaeg. Y cyfieithad canlynol a gopiwyd o "Faner ac Amserau Cymru," am Hydref 23, 1867.

Foneddigion—Gan ei bod yn arferol yma yn nechreuad eisteddiad i draddodi anerchiad agoriadol, a chan ei fod yn digwydd syrthio i'm rhan

i y tro hwn, fy nhestyn fydd yr Eglwys Sefydledig. Mae'r ymdrechiadau sydd yn cael eu gwneyd yn diesennol i wrthweithio Protestaniaeth, mae'n debyg gyda dyben i adferu Pabyddiaeth, neu ryw ffurf ar y grefydd hono, yn adnabyddus i'r cyhoedd. O herthynas i ganlyniadau eithaf yr ymdrechiadau hyn y mae dwy farn. Mae rhai yn meddwl y bydd yn rhaid ymladd brwydr Protestaniaeth drosodd drachefn. Mae ereill yn ymgysuro yn y syniad fod Protestaniaeth wedi cymeryd gafael rhy gadarn yn nghalonau y bobl i'w dymchwelyd yn hylaw, ac y bydd i'r hyn a elwir yn symmudiad Ritualyddol wisgo ei hunan allan mewn amser. Ni wnaf ymgymmeryd a phenderfynu y cwestiwn. Fy mhrif amcan fydd nodi allan yn bur fyr yr hyn sydd yn ymddangos i mi yn oruchwyliaethau ar waith er cyrhaeddyd yr hyn nad wyf ar ben fy hun yn ystyried fyddai yn beth tra dymunol—r'wyn meddwl dadgyssylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Mae hyny yn ddymunol er mwyn dadblygiad cyflawn ar ryddid crefyddol a gwladol yn y wlad hon, yn gystal ac er mwyn yr enwad Esgobaethol, yr hwn sydd wedi bod mor anffortunus nes y mae ei yni wedi ei grebychu drwy ei gynghrair â'r wladwriaeth. Pa fwyaf yr ydwyf yn astudio ar Eglwysi sefydledig, yr ydwyf yn dyfod yn fwy i werthfawrogi fy egwyddorion ymneilldnol. Yr ydwyf yn fwy argyhoeddedig fod Eglwysi sefydledig o angenrheidrwydd yn wrthwynebol i gynnydd rhyddid crefyddol a gwladol. Mae'n ammhosibl i'r rhyddid hwn fodoli, i berffeithrwydd, mewn unrhyw wlad lle y mae Eglwys sefydledig ac offeiriadaeth uwchafol, oblegid nad yw goddefiad yn ryddid crefyddol. Yr ydwyf yn casäu y syniad o oddefiad, oblegid yr wyf yn ystyried fod genyf gystal hawl i ryddid crefyddol a'r rhai hyny sydd yn ymostwng i oddef fy ymneilldnaeth. Bydded yr amcanion y bwriadwyd i'r Eglwys sefydledig eu cyflawni yn nadblygiad y cynlluniau Dwyfol, yr hyn a fyddant, yr wyf yn sier mai fy nyledswydd arbenig i ydyw, nid yn unig ymgadw oddiwrth yr Eglwys, ond ymdrechu dwyn yn mlaen ei dadgyssylltiad oddiwrth y llywodraeth. Y mae hyn i'w wneyd drwy oleuo meddyliau dynion o berthynas i'r drygau cymdeithasol sydd yn dilyn Eglwys wladol yn mha le bynag ei goddefir. Nid ydwyf yn ymneilldno oddiwrth yr Eglwys wladol oblegid fy mod yn Undodwr, ac yn gwrthwynebu rhai athrawiaethau sydd yn y llyfr Gweddi Cyffredin, nac oblegid fy mod yn credu fod fy nghyd-ddyn, bydded ei sefyllfa mor ddyrchafedig ag y byddo, nac unrhyw gorph o ddynion, cymmanfa, na senedd, a hawl ganddynt i ddywedyd wrthyf pa grefydd mae'n rhaid i mi gredu, na pha fodd, nac yn mha le, na'r dull y dylwn addoli Duw. Yr ydwyf yn gwahanu oddiwrth yr Eglwys oblegid fy mod yn caru rhyddid gwladol a chrefyddol.

Yr ydwyf yn ystyried y rhyddid hwn yn hawl, fy hawl enedigol, a genedigaeth-fraint pob dyn, dynes, a phlentyn. Y mae yn un o hawliau dyn, am ei fod yn ddyn, ac yn fod crefyddol a rhesymol. Y mae yn werthfawrocach i mi na bywyd ei hun, o blegid yr wyf yn ystyried os amddifadir fi o'r rhyddid hwn, nad ydyw bywyd yn fawr werth ei gael. Am hyny, gan fy mod yn argyhoeddedig nad all rhyddid gwladol a chrefyddol fodoli, o leiaf mewn perffeithrwydd, lle y mae Eglwys sefydledig gydag offeiriadaeth uwchafol, yr ydwyf nid yn unig yn neilldno oddi wrthi fy hun, ond yr wyf yn meddwl ei fod yn ddyledswydd arnaf berswadio ereill

i ymgadw oddi wrthi. Pe byddai i Undodiaeth gael ei mabwysiadu gan y Stâd, byddai i'm hegwyddorion ymneillduol fy ngorfodi er hyny i anghydffurfio. Mi a gondemniwn yr Eglwys hono, er yn Undodol; rhybuddiwn bawb yn ei herbyn, a gwnawn gymmaint a fyddai o fewn fy ngallu i gael gwared o honi oddi ar ddaear Duw. Pwy bynag gan hyny sydd yn ymneillduo oddi wrth Eglwys wladol am y rhesymau ag yr wyf fi, a fyddant yn sier o lawenychu wrth ganfod unrhyw arwyddion o'i chwymp fel sefydliad gwladol. Yr wyf yn credu fod goruchwyliaethau mewn gweithrediad yn y genedl fawr hon, oddi allan ac oddi fewn i'r Eglwys wladol, y cyfryw oruchwyliaethau, neu ddylanwadau, neu elfenau, neu gelwch hwynt yr hyn a ewyllysioch, a wnant, yr wyf yn argyhoeddedig, yn fuan neu yn hwyr, gyflawni ei dinystr fel Eglwys wladol. Gan fod yn rhaid i mi fod yn fyr, ni chaf sylwi ond ar ychydig.

Un o honynt, os nad wyf yn camgymmeryd, ydyw (yn y blynyddoedd diweddaf), ledaeniad cyflym democratiaeth yn y wlad hon. Ni all neb fod yn ddall i'r ffaith fod y bobl yn dyfod yn allu mawr yn Brydain. Yr wyf yn golygu gallu politicaidd. Y mae y gallu hwn yn cael ei deimlo fwy, fwy, yn Nghynghorfa y genedl, ac nid ydyw hyd yn nod yr Eglwys wladol wedi bod yn alluog i wrthsefyll ei ddylanwad. Y mae rhai yn dychrynu o blegid cynnydd y gallu hwn, ond nid wyf fi, o blegid y mae genyf ffydd yn y bobl. Nid rhaid i mi ddywedyd wrthych fod yr Eglwys wladol, yn ei ffurf lywodraethol ac Esgobyddol, yn caniatau graddau—Esgobion, Archesgobion, Rectoriaid, Clerigwyr, a lluaws ereill, ac yr wyf fi yn anghofio eu teitlau. Y mae gan hyny yn ffurf o lywodraeth sydd yn hynod gyfaddas i gyfarfod â syniadau ac amcanion pendefigaeth ag sydd wedi bod am ganrifoedd yn allu llywodraethol yn y wlad hon. Hefyd nid oes eisieu i mi ddywedyd wrthych, fod cyfraith yn y wlad hon a elwir yn gyfraith etifeddion a hawlenedigaeth *(entail and primogeniture)*. Olion ydyw o'r hen gyfansoddiad gwriogaethol *(feudal)* oedd unwaith mor gyffredin yn y wlad hon. Mae y gyfraith hon yn sicrhau etifeddiaethau tirol teuluoedd pendefigaidd i'r mab hynaf. Yr ydys yn trefnu ar gyfer y meibion eraill mewn ffordd wahanol. Y mae yn arferol cyfrwyo un o honynt ar yr Eglwys, yr hon, gyda'i graddau o Esgobion, Archesgobion &c., nid ystyrid ei bod islaw anrhydedd teulu pendefigaidd. Y Brenin Iago, rwy'n credu, a arferai ddywedyd "Dim Esgob, dim Brenin." Os byddai yn digwydd fod mwy o'r hiliogaeth na dau, rhoddid eu dewisiad iddynt o'r fyddin neu'r llynges, neu swydd led gyfoethog dan y llywodraeth. Ond yn y blynyddoedd diweddaf, fel yr ydych yn gwybod, mae pwlpidau a rhai o swyddau uchaf yr Eglwys wladol yn cael eu llenwi yn gyflym gan feibion amaethwyr, masnachwyr, a chrefftwyr. Y canlyniad ydyw fod dynion ieuainc o ddisgyniad pendefigaidd yn dyfod braidd i gywilyddio myned i bwyso ar yr Eglwys, ac y maent yn edrych am swyddau yn y fyddin a'r llynges yn lle hyny, neu yn myned at y gyfraith. O ganlyniad nid yw y bendefigaeth yn teimlo yr un dyddordeb i gynnal i fyny yr Eglwys wladol ag a fyddai yn ei deimlo flynyddoedd yn ol. Mae yr Eglwys o ganlyniad yn wanach, a pha bryd bynnag y bydd hi etto mewn perygl gwirioneddol, ni bydd y bendefigaeth mor barod, ag mewn blynyddoedd blaenorol, i gasglu o'i chwmpas. Mae cynnydd democrataidd hefyd yn niweidiol

iddi mewn ystyr arall, o blegid y mae'n rhaid i chwi ddeall fod yr Eglwys yn blanhigyn pendefigaidd ag nad yw un amser yn blaguro yn dda mewn awyrgylch sydd wedi ei ddiwyno ag anadl democratiaeth. Fel y sylwyd eisoes, mae'r elfen ddemocrataidd ar gynnydd yn Nhŷ y Cyffredin, ac yn ol fel y byddo yn cynnyddu yno, bydd i'r Ty ddyfod yn fwy annibynol ar y bendefigaeth, ac o ganlyniad yn llai tueddol i ffafrio yr Eglwys. Nid yw yn rhyfeddod gan hyny, fod cynnalwyr yr Eglwys Wladol, yn teimlo yn ddychrynedig o blegid cynnydd gallu y bobl, ac yn gwaeddu allan gymmaint yn ei erbyn. Dyna hefyd y caniatad i'r Ymneillduwyr i fyned i mewn i'r ddwy Brif Ysgol yn Lloegr; ni bydd i hyny wneyd llawer o ddaioni i'r Eglwys wladol. Mae'r Ymneillduwyr, fel yr ydych yn gwybod, yn cael caniatad i fyned i mewn i'r ysgolion hyn, ond dan gyfyngiadau neilldnol. Ond daw yr amser pan y caniateir i'r naill a'r llall fyned i mewn ar yr un telerau. Pan ddel yr Eglwyswr i ganfod nad ydyw y ffaith o'i fod yn perthyn i'r Eglwys wladol yn rhoddi un fantais iddo yn yr ysgolion hyn ar yr Ymneillduwyr, ni bydd iddo ef na neb yn perthynu iddo, ofalu llawer am y cyssylltiad rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth barhau.

Ond yr ydych yn canfod fod y rhai hyn yn dylanwadu ac yn gweithredu tu allan i'r eglwys. Gadewch i ni yn nesaf edrych a oes yna rywrai hefyd yn cydweithredu â'r rhai hyn oddi fewn iddi. Y mae dau gryf iawn o leiaf. Llwyddiant yr Eglwys Drefedigaethol *(Colonial)* ydyw un. Er ei bod yn dibynu ar yr egwyddor wirfoddol ac ar ei hegnion ei hun, dywedir wrthyf ei bod yn amlygu mwy o arwyddion bywyd na'i chwaer gartref. Y mae'r ffaith yna yn peri i'r lleygwyr ddechreu tybied, fod nodded wladol yn rhwystr yn hytrach na help i'w heglwys. Yn sicr y mae'r argyhoeddiad yna yn ennill tir yn mysg lleygwyr yr Eglwys. Os nad wyf yn anghofio, Mr. Gladstone, yn ei araeth genhadol ddiweddar yn Ngogledd Cymru, a gyfeiriodd at y ffaith hon. Yr oedd yn priodoli, os nad wyf yn camgymmeryd, llwyddiant rhagorach yr Eglwys drefedigaethol i'r ffaith nad oes ganddi fraich o gnawd i orphwys arni; y mae eu lleygwyr yn fwy hunanddibynol na'u brodyr gartref. Yn hytrach na dibynu mwy ar eu sel a'u hyni eu hunain, edrychant gartref at y wladwriaeth am gynnorthwy, a thrwy hyny yn gorphwys ar fraich o gnawd Pan y mae dyn o dreiddiad Mr. Gladstone yn ychwaneg nag awgrymu fod undeb â'r wladwriaeth yn niweidiol i'r Eglwys, mae y syniad hwn, yn ddiammheu, yn ennill tir yn mysg y lleygwyr, a dyna yr hyn sydd yn eisieu. Bydded i'r lleygwyr perthynol i'r Eglwys gael eu hollol argyhoeddi y byddai yn well i'w chyngrair â'r wladwriaeth ddibenu, ac ni bydd llawer iawn o amser cyn y bydd iddi gael ei gwaredu o'i chaethiwed.

Y mae peth arall hefyd sydd yn tueddu i ddwyshau yr argyhoeddiad hwn. Yr ydwyf yn golygu yr anghydweliad clerigol sydd mor gyffredinol yn yr Eglwys. Pan feddyliwyf am y setyllfa ddifrifol y mae'r Eglwys hon ynddi yn bresennol, yr wyf yn cael fy nhemtio i feddwl fod rhaglunaeth, cyn ei chwympo fel eglwys wladol, yn bwriadu ei cheryddu am ei herledigaethau blaenorol, ac yna ei thaflu ymaith am byth fel canghen wywedig. Ond nid yw yn perthyn i mi ei barnu. Mae Eglwys wladol, fel y gwyddoch, yn golygu unffurfiaeth yn y gweddïau cyhoeddus, gwein-

yddiad y sacramentau, a defodau yn yr holl eglwysi drwy y wlad. Nid yw yn angenrheidiol i mi ddywedyd wrthych fod cyfraith i'r perwyl yna wedi pasio yn amser teyrnasiad Charles yr ail.

Yn ol y gyfraith hono gofynir i bob gweinidog roddi ei gydsyniad diffuant i'r holl bethau a gynnwysir yn y Llyfr Gweddi Cyffredin, ac ymrwymo mewn modd difrifol i beidio ag addysgu na phregethu dim tyddo yn wahanol i'r athrawiaethau a osodir allan yn y llyfr hwnw. Mewn gwirionedd, ni allasai un eglwys wneyd ychwaneg i orfodi unffurfiaeth crediniaeth nag y mae'r Eglwys wladol wedi ei wneyd. Ymddengys i mi, foneddigion, fod y bobl hyny sydd yn meddwl y gall pawb gredu yn unffurfiol ar unrhyw bwnc sydd yn caniatau gwahaniaeth mewn barn, yn gwybod ond ychydig am weithrediadau y meddwl. Ni ddarfu i'r Creawdwr doeth fwriadu unffurfiaeth mewn barn. Byddai yn gystal pasio cyfraith seneddol, yn gorchymyn unffurfiaeth gwynebpryd, neu hyd pennodol i drwynau dynion, neu yr un lliw i'r llygaid, a cheisio gan bawb gredu yn gyffelyb. Gallwn ddywedyd nad ellir cael dau mewn un eglwys, pa mor liosog bynag fyddo, yn eu syniadau yn hollol yr un fath â'i gilydd, ar bob pwnc o athrawiaeth, nac yn wir ar y rhai hyny a ystyrir yn angenrheidiol er iachawdwriaeth. Cyn y gellid cyrhaeddyd hyn byddai yn angenrheidiol fod pob dyn yn meddu yr un faint o gymhwysderau a gallu dealltwriaethol, wedi eu gosod yn yr un amgylchiadau, wedi cael yr un swm a chyffelyg addysg, a phob peth arall yn gyffelyb. Pe bnasai wedi ei ordeinio felly gan Ragluniaeth, buasai hwn yn fyd rhyfedd yn wir! Ychydig gynydd a wneid mewn gwybodaeth grefyddol, neu mewn unrhyw bwnc arall. Ni buasai dim yn fwy niweidiol i Gristionogaeth, yr hon, gyda phethau ereill yn gyfartal, a lwydda oreu lle y caniateir dynion i wahaniaethu yn eu meddyliau, a rhyddid i lefaru. "Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrandaw gwrandawed," oeddynt eiriau yn fynych yn ngenau ei Sefydlydd mawr, ac y mae yn bryd i'r holl eglwysi Cristionogol ddeall nad ydyw unffurfiaeth crediniaeth wedi ei fwriadu erioed ganddo ef i fod yn rhwymyn undeb yn ei Eglwys. Ond ymddengys fod Senedd y Brenin Charles yn meddwl yn amgen ar y mater, ac y mae y clerigwyr yn ymddangos fel yn meddwl felly hyd y dydd heddyw. Y Senedd, gyda chydsyniad clerigwyr, a ymdrechodd yn galed i orfodi unffurfiaeth ar yr holl genedl, ond methodd, ac yn bresennol mae'r Eglwys wladol yn dechreu canfod nad ydyw ond rhwymyn tywodlyd hyd yn nod o fewn ei chylch ei hun. Er gwaethaf ei chyfreithiau unffurfiaeth, ac addewidion difrifol ei chlerigwyr i ddysgu dim yn wrthwyneb i'r Llyfr Gweddi Cyffredin, nid oes un eglwys mewn gwlad Gristionogol yn meddu clerigwyr sydd yn gwahaniaethu gymmaint yn mysg eu gilydd ar bob pwnc athrawiaethol nac y mae ein Heglwys wladol yn y dyddiau hyn. Y mae ei chlerigwyr yn Uchel Eglwyswyr, Isel Eglwyswyr, a Llydan Eglwyswyr, ac y mae'n bossibl, am ddim ar a wn i, fod rhai o honynt yn ddim o un eglwys. Mae un blaid yn yr eglwys yn dadleu yn gyndyn o blaid yr hen egwyddor Brotestanaidd—mai y Beibl, a'r Beibl yn unig ydyw unig reol ffydd, ond oddieithr i chwi ddarllen y Beibl gyda'u drychau hwy, a'i esbonio yn ol safon eu ffydd hwy, yr ydych yn ddafad ddu. Maent yn honi yr enw Efangylaidd, fel pe mai hwy yn unig ydynt bobl gymmeradwy Crist. Y mai plaid arall yn yr

Eglwys ranedig hon ag y byddai yn dda ganddynt gael diwygio y Llyfr Gweddi Cyffredin, a chyfnewid athrawiaethau eu Heglwys, fel y byddont yn gysson â goleuni gwyddoniaeth a beirniadaeth feiblaidd. Y mae eraill yn yr Eglwys yn llafurio yn galed i'n harwain yn ol i Rufain, yn ymawyddu am undeb agosach a'r hen foneddiges mewn ysgarlad, sydd yn eistedd ac yn ysgyrnygu ar y saith bryn. Y mae eu hysbryd yn llosgi mewn digllonedd gan y syniad eu bod hwy, olynwyr yr apostolion, gwneuthurwyr gwyrth anweledig gyda gwin a bara, a'r rhai yn unig sydd a rhyddid i fyned at agoriadau Pedr—eu bod hwy, rhai hoffus y nefoedd yn ddarostyngedig i'r awdurdodau daearol! Eu dymuniad difrifol ydyw nad yw y dydd yn mhell pan na bydd yn rhaid i'w Heglwys gydnabod un arolygiaeth ond yr offeiriadol, a phan y byddont hwy yn unig fugeiliaid ac athrawon ysbrydol y bobl. Cyn lleied o undeb sydd yn mysg clerigwyr yr Eglwys y dyddiau hyn! Y mae yr Eglwys wedi eu hysgwyd i'w sylfeini. Ei phethau daearol yn unig sydd yn ei chadw wrth ei gilydd, oblegid y mae pob plaid, pa mor wrthwynebol bynag i'w gilydd, yn cyduno fod ei thorthau yn dda.

Y mae'n ddiammheuol fod y sefyllfa yma ar bethau yn hynod alarus, ac ni bydd i ddim brysuro yn fwy effeithiol ei dinystr fel Eglwys wladol na'r anghydweliad sydd yn mysg ei chlerigwyr. Ni dichon tŷ wedi ymranu yn ei erbyn ei hun sefyll. Y mae y lleygwyr yn dyfod yn fwy argyhoeddedig o ddydd i ddydd na bydd dim a'i gwared ond dadgyssylltiad oddiwrth y wladwriaeth, ac y mae'n ddiammheu eu bod yn iawn. Pe buasai yr Eglwys wladol heb fod yn un wladol, ni buasai ymddygiadau ynfyd y blaid Babyddol yn cyffroi cymmaint o sylw. Bydded i'r clerigwyr gan hyny gael eu gosod, yn eu perthynas â'r wladwriaeth, yn sefyllfa y gweinidogion Ymneillduol, yna bydd diwedd buan ar eu hystranciau pabyddol. Deuai eu Heglwys drwy hyny yn fwy tebyg i'r hyn a ddylai eglwys Gristionogol fod. Y mae i'w obeithio y bydd i'w lleygwyr anfon deisebau at y Frenhines a dau dŷ y Senedd cyn bo hir, i ganiatau i'w heglwys, yr hon sydd yn cael ei darostwng a'i gwaradwyddo yn bresennol gan anghytundebau clerigol ac arferion Pabyddol, gael ei rhyddhau oddiwrth y wladwriaeth. Ond y mae'n bossibl nad ydynt yn barod eto i gymmeryd y gris penderfynol yna. Er hyny nis gall neb sydd yn arfer darllen papyrau wythnosol yr Eglwys, a chylchgrawnau eraill, fod yn ddall i'r ffaith, fod cwestiynau yn dal perthynas â dadgyssylltiad yr Eglwys a'r wladwriaeth, pa rai a ystyrid ddeng mlynedd yn ol yn rhy sanctaidd i siarad yn eu cylch, yn bresenol yn cael eu dadleu gan eglwyswyr gyda chryn lawer o ryddid ac amynedd teilwng o ddynion synwyrol. Nid yw hyn ond dangos fod cyfnewidiad mawr wedi dyfod dros feddyliau Eglwyswyr o berthynas i'r Eglwys a'r wladwriaeth. Mae eu llygaid yn dechreu agor i'r ffaith nad all fod mewn eglwys wladol unrhyw sel ysbrydol a chrefyddol. Bydded iddynt gael eu harwain fwy fwy i weled y fantais i'w bywyd crefyddol, pe byddai eu Heglwys wedi cael ymwared o nodded y Stâd. Mae ein rhagolygon fel Ymneillduwyr Protestanaidd ar y cyfan yn hynod galonogol. Y mae ein rhesymau dros gredu fod yr amser yn agosäu pan y bydd Eglwys wladol yn Lloegr yn cael ei rhifo yn mysg y pethau a fu, ac i fod barn y rhai hyny o eiddo y clerigwyr sydd yn meddwl fod Ymneillduaeth yn mron marw, yn hollol yn ddisail. Bydd i Ymneillduaeth farw, ni a obeithiwn, a hyny yn fuan, ond nid cyn y bydd yr

Eglwys wladol ddim yn Stâd-eglwys mwyach. Pan y cymmero hyn le, derfydd Ymneillduaeth, ac nid cyn hyny. O ganlyniad, nid ydyw brwydr Ymneillduaeth etto drosodd. Am hyny, fel milwyr da i Iesu Grist na roddwn heibio ein harfau. Ein dyledswydd yw eu cadw hwynt bob amser yn loew ac yn barod i'r frwydr pryd bynag y bydd galwad arnom. Gwnewch Ymneillduaeth yn un o bynciau eich *debating society*. Darllenwch bob traethawd ar y cwestiwn a ellwch gael gafael ynddo. Chwiliwch i mewn i ddylanwad niweidiol Stâd-eglwys trwy bob gradd, a sefyllfa, a holl sefydliadau ein gwlad. Edrychwch fel y mae yn bydoli calonau clerigwyr, yn rhoddi annogaeth i ragrith crefyddol, ac yn gwneyd crefydd Crist yn watwor. Mewn gair, mae y Stâd-eglwys yn pwyso fel hunllef ar ddwyfron Cristionogaeth, ac nid anadla yn rhydd hyd nes ei symudir ymaeth. Pa faint bynag fyddoch yn gwahaniaethu yn eich daliadau crefyddol, mae Ymneillduaeth Brotestanaidd a Stâd-eglwys yn bynciau y gellwch eu dadleu heb achos ofni clwyfo teimladau y naill a'r llall. Fel hyn, byddwch yn fwy parod a galluog i amddiffyn a dysgu egwyddorion Ymneillduaeth, pan fyddoch wedi sefydlu yn y weinidogaeth. Bydd yn ddyledswydd arnoch i oleuo ac i gadarnhau yn eich egwyddorion Ymneillduol y bobl tan eich gofal. Mae lle i ofni fod hyn wedi cael ei esgeuluso yn ormodol yn y blynyddoedd aethant heibio, ac o herwydd hyny, yn nghymysg a bydolrwydd y galon, y mae amryw deuluoedd, yn enwedig yn ein trefydd, wedi aberthu egwyddorion eu teidau ar allor y Stâd-eglwys. Yr ydym ni yn mwynhau llafur ein hynafiaid, y rhai a safasant yn ddewr dros y rhyddid crefyddol ydym ni yn awr yn ei feddu; ein dyledswydd ninnau yw, nid yn unig traddodi yr un egwyddorion i lawr i'r genhedlaeth nesaf, ond i ychwanegu attynt.

Yn olaf, caniatewch i mi, foneddigion, draethu fy ngobaith na fydd i ddim ystyriaethau tymhorol i ddylanwadu ar feddyliau neb o honoch, fel ag i'ch hudo i ymuno â'r Eglwys wladol. Mae hyn wedi cymmeryd lle yn rhy fynych yn y blynyddoedd diweddaf yn y Coleg hwn, yn gystal ag mewn Colegau Anghydffurfiol eraill. Trist yw meddwl fod amryw o ddynion ieuainc, rhai yn ddiau na feddent gymhwysderau at y weinidogaeth yn mhlith yr Anghydffurfwyr, wedi gwerthu eu hegwyddorion Ymneillduol am damaid o fara! Bu amser pan oedd clerigwyr yr Eglwys yn falch o'r cyfryw encilwyr, ond dywedir wrthyf nad ydynt yn bresenol yn gofalu nemawr am danynt. Yn sicr nid ydynt yn cael y torthau brasaf—yn hytrach y briwsion oddiar fwrdd eu harglwyddi; y borfa oreu a roddir i feibion yr Eglwys. Y mae cydwybod dda a chalon gywir yn drysorau anfeidrol werthfawrocach na holl gyfoeth y Stâd-eglwys, er ei fod yn filiwnau yn y flwyddyn. Wedi ymadael â'r Coleg, os digwydd i'ch rhagolygon, am dymhor, fod yn dywyll, na wangalonwch. Er dim na ymunwch â'r Stâd-eglwys. Yr wyf yn dywedyd am dymhor, oblegid os byddwch yn gywir i argyhoeddiadau eich cydwybod, yn ddiwyd i wellhau eich talentau, a'ch calon yn syml ac uniawn ger bron eich TAD yr hwn sydd yn y Nefoedd, gellwch fod yn sicr fod dyddiau mwy dysglaer yn eich aros. Bydd i'r MEISTR, wedi gweled eich ffyddlondeb iddo, baratoi lle i chwi i weithio yn rhyw gongl o'i winllan. Os y delwch wrth yr egwyddorion yr ydych yn gredu yn eich calon sydd wir, ac uniawn ger bron Duw, bydd i'r hwn sydd yn gofalu am adar yr tô a chiwion y

gigfran, ac yn ngolwg yr hwn y mae gwallt ein penau oll yn gyfrifedig, ofalu am danoch, na fydd arnoch eisiau dim daioni. Beth bynag a wnelоch, a pha le bynag y byddoch, gofalwch fod eich calon yn bur, a'ch cymhelliadau yn gywir ger bron yr HOLL WYBODOL DDUW!

O.S.—*Mae rhai gwelliantau wedi eu gwneyd yn y cyfieithad y cyfeirir ato uchod.*

PREGETH AR DEMTIAD YR IESU.

MATT. IV. 1—11.

MAE y testun yn un o'r manau hyny yn yr Ysgrythyrau ag y mae cryn anhawsder i gael myned yn agos iawn attynt. Bydd yr esponwyr a'u cleddyfau tanllyd ysgwydedig yn eich cadw i ffwrdd. Ni chewch glywed yr hanesydd ei hun yn siarad, gan y bydd lleisiau y bobl hyn yn boddi yr eiddo ef. Llawer yw yr anghydweled sydd wedi ac yn parhau i fod yn nghylch y Temtiad. Nid fy amcan i yn awr yw myned i mewn i'r ddadl hon yn gymmaint a galw eich sylw at y prif wersi y mae Temtiad yr Iesu yn eu dysgu i ni.

Nis byddai, er hyny, yn iawn i mi beidio a nodi rhai o'r cynygion at egluro y rhan hon, yn gystal a chrybwyll yr olwg sydd fwyaf boddhaol i'm meddwl fy hun. Y farn boblogaidd, fel y gellir ei galw, yw fod yma Ddiafol personol yn siarad ac yn ymddadleu â'r Iesu; mai penaeth byddinoedd y fagddu, y gwr hwnw, y blinid cymaint ar ysbryd Martin Luther ganddo, ac at yr hwn y taflai y monach duwiol ei gorn ysgrifenu, yw y Diafol a enwir yma. Mae pob peth i'w ddeall yma yn llythyrenol am yr ymprydio a'r ymddiddan; mor llythyrenol a genedigaeth neu enwaediad yr Iesu. Traethiad hanesyddol a dim arall sydd yma. Mae y Diafol yn berson mor wirioneddol a'r Iesu. Cyn derbyn y farn hon, rhaid wrth reswm gredu ym modoliaeth bersonol y Diafol. Creadigaeth dychymyg dyn y gadawaf inau y Diafol. Mae geiriau y proffwyd Esay yn glir ac yn gadarn. "Myfi ydwyf yr Arglwydd, ac nid arall; nid oes Duw ond myfi. Yn llunio goleuni ac yn creu tywyllwch; yn gwneuthur llwyddiant ac yn creu drygfyd; myfi'r Arglwydd sydd yn gwneuthur hyn oll." Yr wyf yn credu'r geiriau yma, eu bod yn gosod allan y gwirionedd ar y pwnc, ac nad oes unrhyw Ysbryd drygionus, gulluog, cyfrwys, maleisus yn tramwy'r ddaear ac yn ymrodio ynddi, yn ymosod ar ddynion ac yn rhwystro amcanion yr un Bod goruchaf rhag cael eu cwblhau. O'r dwy rain gyda llawer o bethau eraill—rhai o honynt yn dda, rhai yn ddrwg—y daeth yr athrawiaeth hon am ryw berson yn dwyn yr enw o Satan neu Ddiafol. Ac y mae'r iaith a darddodd oddiwrth y gred yn cael ei defnyddio, braidd heb yn wybod iddynt, ond heb wneyd un niwed o bwys, gan y rhai na chredant bellach ym modoliaeth personol y Diafol; yn debyg ag y byddem yn arfer dweyd fod yr haul yn codi ac yn gostwng, er yn gwybod yn well.

Ond nid yw pawb a dderbyniant y gred boblogaidd am y Diafol yn edrych ar y Temtiad fel hanes. Ni welant yr un priodoldeb yn hyn. A'i

gymeryd yn llythyrenol byddai yn wir yn arddangos golygfa gyffröus, ac yn darllen fel dalen allan o ryw *Drama* mawreddog, ond yn cael ei yspeilio o'r nerth a'r gwerth a gynnwysai fel yn gosod allan ymdrech foesol ddwys.

Tybia eraill mai cenad oddiwrth y Sanhedrim oedd y Temtiwr, a rhai, yn eu plith, Lange, fod yno genad, ond bod yno Ddiafol corfforol wrth ei gefn. Llawer o esponwyr drachefn, a'r cyfryw yn graffus a dysgedig, ydynt ffafriol i'r dyb mai mewn rhyw fath o weledigaeth y cymerodd y Temtiad le, pan oedd y meddwl wedi ei gario ar adenydd dychymyg allan o'r presenol a'r gweledig, heb fod gan bethau daearol afael arno—math o *trance*, neu ber-lesmair. Ond golwg ammherffaeth yw hon hefyd, oblegid pe felly ni fyddai yma yr un wers foesol uchel yn cael ei dodi ger bron. Nid oes yr un ymarferiad gwirioneddol o rinwedd yn bossibl mewn gweledigaethau a breuddwydion. Mae y dyn wedi ei gipio i'r drydedd nef. Nid yw dyn ei hun. Nid yw yn gweithredu at ei ryddid.

Eraill, yn eu plith Schleiermacher ydynt wedi edrych ar y Temtiad fel dameg. Hyd yn nod a'i gymeryd felly, byddai yma wersi buddiol yn cael eu cymhell i sylw, ond gan fod yr olwg hon yn cau allan unrhyw brofiad tufewnol a phersonol i'r Iesu, gwnai y Temtiad ar y cyfan yn beth tlawd a difywyd.

Gellid yn hawdd ymhelaethu, ond y mae hi yn bryd i ddywedyd yr olwg a ymddengys i mi fwyaf rhydd oddiwrth anhawsderau, a thebycaf i fod yn wirionedd: mai crynodeb yw y Temtiad o fywyd dirgelaidd a thufewnol yr Iesu cyn iddo ymgyflwyno yn llwyr i waith ei fywyd; desgrifiad o ymdrech ei feddwl yn y cyfnod pan y gellir dweyd fod ei gymeriad santaidd, yn benaf, yn ymffurfio: cyfnod nid yn estyn dros ddeugain niwrnod yn unig ond dewy gydol blynyddau. Dug i'r amlwg yma yr egwyddorion a lywodraethent ei fuchedd. Cawn yma gip-olwg adeiladol ar un cryfach na'r un cryf arfog yn cymeryd meddiant o orsedd calon yr Iesu—meddiant llawn a pharhäus. Nid annhebyg nad geiriau yr Iesu ei hun ydynt ac iddo ef ddewis rhoi y ffurf ddesgrifiadol hon i'w brofiadau mynwesol, yn enwedig pan gofiom fod dysgwyliad yn mhlith ei genedl y byddai ymgyrch personol rhwng Satan a'r Messia. Y mae cyflead yr adran hon yn gynar yn yr Efengyl hon yn gystal a'r ddwy arall, yn beth gweddus a naturiol, buais agos a dweyd athronyddol, gan y saif y ffaith a gynnwysir yn y Temtiad yn y cysylltiad o achos i'r effeithiau y darllenwn am danynt yn ei fywyd canlynol. Darllenwn yn Luc i. 80, a xi. 52. am gynydd tawel a graddol yr Iesu "mewn doethineb a chorffolaeth a ffafr (neu gymeradwyaeth) gyda Duw a dynion." Cawn yn y Temtiad ddarluniad o'i gynydd trwy ymdrech galed a dewr ag ysbryd y byd hwn, pan wneid prawf o sylfeini ei ffydd a'i obaith. Cawn ef yma fel un wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninau, eto heb bechod. (Heb. iv. 15.) Yma, â deniadau'r byd y mae'r frwydr; tua diwedd ei oes, â dychryniadau'r byd. Mae y Temtiad gan hyny yn ddarlun o ddynoliaeth yn dyfod trwy argyhoeddiadau santaidd yn fuddugoliaethus ar hunan-gariad. (*Hase.*)

Gwrthddadleuir, dichon, ei bod yn sarhâd ar yr Iesu i feddwl unrhyw ymryson gymeryd lle yn ei fynwes ef. Ond os yn wir ddyn, onid rhaid ei fod yn ddarostyngedig i delerau dynoliaeth yn gyffredinol? Nid oes dim yn fwy gwir, yn fwy sylweddol i ddyn na bod y drwg yn bresenol

gydag ef nes y dywedo'r enaid y gair: "Ymaith Satan!" Nis gallasai, os yn wir ddyn, fod yn amddifad o'r hyn y mae pawb dynion yn gyfrangion. Etto, beth yw Rhinwedd? Onid bod un dewis y da o flaen y drwg, yn gwneyd ymdrech i fod yn dda, yn barod i wneyd aberth yn mhlaid achos daioni, yn gadael i'w natur oreu gael y dydd ar ei natur waethaf? Gallai bod yn sefyll ar dir rhy uchel i bechu, bod yn cael ei ragod gan angenrheidrwydd ei natur rhag pechu, gallai y cyfryw enyn edmygedd a syndod ynom, ond nis gallai haeddu y clod am rinwedd ar ein llaw. Rhaid i ni, os ydym i edrych ar yr Iesu fel darlun o rinwedd i edrych arno fel un wedi ymdrechu, a thrwy ei ymdrech wedi cael y fuddugoliaeth; fel un ag sydd trwy ei ffyddlondeb i lais santaidd dyledswydd wedi dyfod yn Bentywysog a pherffeithydd ein ffydd ni. Os yn esiampl gymhwys i ni, rhaid ei fod wedi ei eni yn etifedd i'r un ofnau ac amheuon, i'r un blinderau a thrallodion, i'r un gwendidau, a pheryglon, â ni ein hunain.

Yr ydym gan hyny yn barnu yn ostyngedig nad oes yr un anfri nac iselhad yn cael ei daflu ar yr Iesu gan yr olwg uchod ar ei Demtiad. Rhydd yr adroddiad o'n blaen yr holl amgylchiadau yn darawiadol ac yn effeithiol iawn. Mae yma ddarlun bywiog; y lle yn anghyfanedd—yr oror yn nghymydogaeth wyllt a mynyddig Jericho, a dderbyniodd yr enw *Quarantario* gyda chyfeiriad at yr ympryd am ddeugain niwrnod; yr Iesu yn unig, ac yn newynog; y Temtiwr yn gyflym, cyfrwys, a haerllug; holl awyrgylch y fan fel yn drwm a du gan bryder; rhydd graffder a howyder goruwch-ddynol yn pelydru yn wynepbryd yr Iachawdwr ieuanc pan y mae yn dargan fod dichellion y temtiwr, ac yn dychwelyd ei ergydion deheuig gyda dwbl nerth; mae yr holl amgylchiadau yn gyffröus i'r eithaf.

Dywedais yn barod nad hanes sydd yma. Etto yr hyn sydd mor wir a'r un hanes yn y byd. Nid yr hyn sydd ddarostyngedig i sylw ac ymchwiliad y llygad a'r glust yn unig sydd wir; ond hefyd yr hyn o ymdrech, a rhyfel ag yr a'r meddwl trwyddo. Ië, mwy sylweddol, mwy gwir, yr hyn a basia yn y meddwl yn adegau ei fywiogrwydd a'i egni penaf, na dim a all gymeryd lle o flaen llygaid y byd. Profiadau dwysaf yr enaid, ymdrechfëydd adegau ein profidigaethau tanllyd, y gydwybod bur yn condemnio ac yn hyrddio'n ol hudoliaethau trachwant, anadliadau taerion yr ysbryd defosiynol am nerth i orchfygu—ni welodd llygad ac ni chlywodd clust ddim mor wir, mor ddwfn, mor fawr, a'r pethau hyn.

Ond i fyned rhagom. Ni a daflwn olwg frysiog ar y tair temtasiwn a gawn yma.

(1.) Mae y temtiwr yn cael ei osod allan fel yn arfer gweniaeth; fel yn cydnabod fod yr Iesu yn berchen ar alluoedd mawrion, ar allu i wneyd gwyrthiau, ac yn erchu iddo: "Os Mab Duw wyt ti, arch i'r cerig hyn fod yn fara." Anoga yr Iesu i ddefnyddio y galluoedd uchel hyn i ddyben hunanol; i foddhau chwant corfforol. Dengys yntau, yn ei attebiad, nad rhoddion penaf Duw yw y cyfryw a feithrinant y corff, ond y rhai a gynhaliant yr enaid; ac nad yw y bywyd uchaf yn gynnwysedig mewn bwyd a diod, ond mewn cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân.

(2). Cynyga demtio yr Iesu i ddechreu ei weinidogaeth mewn ffordd o rwysg a rhodres; ac i brofi trwy weithred fyrbwyll ac anystyriol pa

mor gyflawn oedd gofal Duw am ei fywyd: "Os Mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr." Ettyb yntau nad oedd hon y ffordd iawn i amlygu ei ffydd yng nghadwraeth Duw, a'i ofal rhagluniaethol am dano; nad iawn oedd gwneyd prawf mewn ffordd rodresgar a rhyfygus o helaethrwydd ei drugaredd, ond trwy ymddiried yn ostyngedig yn nigonoldeb nawdd Duw ar gyfer pob dyledswydd a threial a ddeuent yn y ffordd arferol. Deil y rhaid i ddyn wneyd ei ran yn wyliadwrus, dyfal, a dirwgnacb, ac yna gadael ei hunan yn llaw y Tad trugarog, yr hwn ni âd fod ar neb o'i greaduriaid eisieu dim daioni. Ni ddywed nad yw Duw yn gofalu, ac yn cyfranu nerth, ond ei fod yn gwneyd hyn yn unig pan y bo'm ni ar lwybr ein dyledswydd.

(3). Gofynir gan yr Iesu i ddefnyddio moddion bydol, arfau milwriaeth gnawdol tuag at sefydlu teyrnas fydol, ac enill dylanwad daearol. Ceisir ganddo i ddwyn y frenhiniaeth yn ol i Israel, mewn ystyr ddaearol a gwladol. "Hyn oll a roddaf i ti os syrthi i lawr a'm haddoli i." Mynai'r Temtiwr iddo roi ei hun i fynu i amcanion o glod ac urddas a derchafiad fel tywysog tymhorol. Yntau yn ei ateb a ddengys nad yw teyrnas nefoedd, gwir deyrnas Crist, yn gynnwysedig mewn llywodraeth allanol, ddaearol; nid mewn fod rhyw sect, neu barti, neu genedl yn cynyddu mewn cyfoeth a gallu; ond mai y deyrnas y daethai ef i'w gosod i fynu oedd i fod cariad at Dduw a dyn, ufudd-dod i'r gyfraith ddwyfol, ymorphwysiad ar berffeithderau y cymeriad goruchaf, ac ymgais i'w gweithio allan yn y bywyd presenol, yn cartrefu ym mhob calon "Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac efe yn unig a wasanaethi."

Yn y rhan hon o hanes yr Iesu, fel yn y rhanau eraill, ni a welwn yn amlwg mai ein brawd a'n cyfaill oedd ef, wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud a minau, eto heb bechod; mor debyg i ni ac eto mor annhebyg. Mae yn cerdded ar hyd y llwybr y dylem ninau rodio. Ni a welwn yma dair demtasiwn, ag y gwyr pob dyn pwyllog ac ystyriol rywbeth oddiwrthynt.

Fe'n temtir ni yn awr i dalu'r sylw flaenaf i'n hamgylchiadau tymhorol; i ddefnyddio'r galluoedd penaf i ddarparu ar gyfer anghenion y rhan corfforol o'n natur, ac i aberthu y cyfan i hyn.

Yr ydym ninau mewn perygl o osod ein hunain mewn amgylchiadau, neu adael ein hunain lithro i sefyllfaoedd peryglus, lle y byddwn yn rhyfygu, yn gosod ein hunain yn agored i brofedigaethau grymus; yn rhyw daflu ein hunain i gymydogaeth y diog, heb un sicrwydd genym y gallwn ddianc yn ddianaf; yn rhyw chwarae a'r demtasiwn fel plant yn chwarae a'r sarff wenwynog.

Fe'n temtir i aberthu ein daioni penaf, ein gwir fywyd, i ryw fath o uchelgais, gan ollwng gwirionedd, gonestrwydd, caredigrwydd, a phob teilyngdod uchel tros gof; gan offrymu ein cyfan i ddiw'r byd hwn mewn rhyw ddull neu gilydd.

I. Ni a gymerwn y demtasiwn flaenaf: y demtasiwn i ofalu yn benaf am ein hamgylchiadau tymhorol ar draul pob peth arall.

Ni raid crybwyll fod yn perthyn i ni anghenion tymhorol, y rhai nis bwriadodd ein Creawdwr da lai na bod iddynt gael eu boddloni. Nid i'w boeni trwy ormod llafur, neu trwy ry fach o fwyd a diod y rhoddwyd y corff godidog hwn i ni. Na thybier fod gair yn cael ei ddweyd yn erbyn

unrhyw ddiwydrwydd, a darpariaeth resymol ar gyfer yr amgylchiadau tymhorol. Mae yn wir fod esgeulusdod gwaradwyddus weithiau gyda'r pethau hyn. Ond yn y cyffredin, ar yr ochr arall y mae y perygl mwyaf: fod gofal gormodol, pryder poenus, ymdrech ry hollol, gyda golwg ar y corff a'i angenrheidiau; tra y bydd y meddwl yn cael ei lyncu i fynu yn yr anianol a'r presenol; y dyn yn byw ac yn bod i wasanaethu'r corff; a rhanau uchaf, galluocaf eu natur yn cael eu darostwng i gynllunio a threfnu ar gyfer byw, ac os bydd modd, ar gyfer cael byd da yn helaethwych beunydd. Mae hyn fel pe byddai ffermwr yn ymroi i wrteithio rhyw greigle neu rôs, neu gors, gan adael y gwaenydd a'r dolydd i redeg yn ddiffrwyth. Mae y meddwl yn cael ei wneyd yn was bach, yn slaf i'r corff.

Byddir, dichon, yn dewis yr alwedigaeth i lafurio wrthi yn unig gyda golwg ar hyn: yr unig gwestiwn yn cael ei ofyn, A ddaw hi a bara i'r cwpwrdd ac arian i'r llogell? Y dyn ieuanc ei hun fydd yn dewis weithiau, ei rieni bryd arall. Rhaid dweyd hyn: mae dynion ieuainc, yn y cyffredin, yn llai bydol, yn ffresach eu teimladau, yn lanach eu calonau, a'u mynwesau yn llawnach o amcanion uchel, yn dodi mwy o werth teilwng ar fywyd, na rhai wedi gweled mwy o flynyddau, ac wedi ymdroi mwy yn ffyrdd y byd. Nid yw dyn ieuanc, ar y cyfan mor chwanog i ddewis galwedigaeth er mwyn yr hyn a ddug iddo. Etto y mae yma demtasiwn yn fynych. Y dyn ieuanc fydd yn cael dewis, a bagad o gynygion yn cael eu gosod ger ei fron; pasia pob un o honynt o flaen ei lygaid, y naill gyda'r rhagolwg hyn, y llall gyda rhagolwg arall; llafur bychan, tâl mawr; bywyd esmwyth, cyflog iawn; gwaith caled, enill canolig; dyledswyddau llafurus, urddas prin. Mae ganddo i wneyd i fynu ei feddwl. Nid bach o bwnc. Mae yma bwyso ar ol pwyso. Gwylia, ddyn ieuanc! mae dy ddyfodol yn ymddibynu ar y modd y dewisi yn awr. Mae yna ryw alwedigaeth, yn llawn llafur, gofal, a thrafferth, heb obaith am lawer o gyfoeth, nac anrhydedd daearol, ond nid heb fod yn berchen ar ragorach manteision na galwedigaethau ereill i fywyd rhinweddol, gwerthfawr a defnyddiol. Mae hi yn anghyoedd a dinôd, ond â chyfleusderau lawer i hau cynghorion ac esiamplau da ar hyd eu llwybrau. Ni fydd i lygad dyn weled ond ychydig o'r hyn a wneir; ond bydd y llygad dihepian yn craffu ar lawer cyfleusdra euraidd, ac aml i weithred oddog. "Y Tad yr hwn a wêl yn y dirgel," ni âd i ddim ddianc ei sylw. Mae yna alwedigaeth arall, llai ei llafur, mwy ei thâl, gwell ei ffafr gyda dynion, ac yn meddu ar ddrws agored i gylch cyfoethocach ac uwch yn nghyfrif y byd. Ond y mae iddi beryglon mawrion y bydd i ddyben mawr bywyd gael ei anghofio, a'r chwantau iselaf i gael gormod o sylw. Dyma awr o demtasiwn. Ddyn ieuanc! cofia mai nid ar fara yn unig y bydd byw dyn. Mae llawer cell yn llawn o fwyd, a llawer cefn yn wych ei wisg, a llawer pwrs yn drwm o arian, tra y mae tân rhinwedd ar ddiffodd ar allor y galon, a ffynonell bwriadau da ar sychu i fynu'r tân.

Brydiau eraill, y rhieni fydd yn dewis. Cwyd y cwestiwn: pa alwedigaeth gaiff fod i'n plentyn? Y temtiwr a sisial i ni waeth pa un, ond i chwi gael un enillfawr, anrhydeddus, ag anadl y cyfoethog arnoch, a rhewynau agored blys i redeg tuag atocn. Onid gwaeth yn wir? Ai dyn a wnaed ar gyfer yr alwedigaeth, ynte yr alwedigaeth er mwyn y

dyn? A yw yn ddim pwys pa faint o gymhwysder fo yn y dyn ar gyfer yr alwedigaeth? pa gyfleusderau a chymelliadau i rinwedd a ga?

Wedi dewis yr alwedigaeth mae modd i ymlithro a dirywio, ac yn hytrach nag arwain y gwir fywyd yn nglyn â hi, i adael i demtasiynau i fydolrwydd a chwantau'r cnawd i gario'r dydd. Mae i'w cael rai galwedigaethau drwg, anonest ynddynt eu hunain. Nid am y cyfryw yr ydym yn siarad. Ond dweyd yr ydym, er i fod ffordd i'r nefoedd o bob galwedigaeth onest, ac i uffern hefyd, etto fod rhai galwedigaethau yn fwy eu manteison nag eraill i fywyd teilwng, yn enwedig i wahanol bersonau. Ond gyda'r galwedigaethau goreu, mae modd myned i arwain bywyd anifeilaidd, i ymfarwhau, i gyfranogi o ddelw y bydolrwydd a'r arferion isel o'n cylch; mae modd myned i ofalu llai am ddilyn yr alwedigaeth megys i Dduw, nag am ei gwneyd yn gyfrwng a chyfleusdra i foddhau y rhan anifeilaidd a chorfforol. Pob peth a ddarostyngo ddyn at yr anifel; pob peth a'i gwnelo yn fwy o anifel ac yn llai o ddyn; eglura ffaith a leinw'r meddwl ystyriol â braw: fod y Temtiwr wedi cario'r dydd; fod yr argyhoeddiad erchyll wedi ei weithio, mai ar fara yn unig y bydd byw dyn. Rhaid cael bara; rhaid i'r anifel hefyd gael bara; o'r un man y mae bara dyn ac eiddo'r anifel yn tyfu. Ond y mae myned i edrych ar fara, ar beth bynag na wna ond dofi a boddhau y chwantau a'r blys corfforol, fel y peth mawr, y dyben, a'r diweddglo, yn brawf ar unwaith fod y temtiwr wedi cario. Mae bara yn werthfawr. Ond ai bara yw y peth penaf? Onid oes rhywbeth o flaen bara? A werthi di dy farn dduwinyddol, dy bleidlais, dy broffes am fara? A werthi di eirwiredd, onestrwydd, serch at rieni, ffyddlondeb i egwyddor, am fara? Na atto, Duw. W. Thomas.

(I'w barhâu.)

UNDODIAID ENWOG A CHYNYDD UNDODIAETH.

Fe ddywedir yn fynych am danom ni, yr Undodiaid, fel math o wradwydd arnom, mai enwad bychan ydym. Yr ydym yn addef nad ydym erioed wedi bod yn lliosog iawn fel enwad, ond onid yw y ffaith mai ychydig ydym, yn gwneuthur yn fwy enwog ddynion dysgedig a fabwysiasant ein syniadau o bryd i bryd? Pan nad oedd un eglwys Undodaidd mewn bod, nac un enwad yn dal ac yn amddiffyn ein syniadau, yr oedd Firmin yn Undodwr, Locke, William Penn, Chillingworth, John Milton, Sir Isaac Newton, Arglwydd Falkland, Nathaniel Lardner, "Wil" Whiston, Wightman, ac amryw eraill allem enwi, oll yn dal yr Athrawiaeth fawr o Undod anrhanadwy y Duwdod, ac yn gwrthod y Drindod fel athrawiaeth anysgrythyrol a phaganaidd. Cafodd y rhai hyn oll eu dwyn i fynu yn yr athrawiaethau Trindodaidd, a chwi wyddoch y fath afael gref ar y meddwl sydd gan ragfarn dygiad i fynu. Nis gall neb ymddihatru o hono, ond y cyfryw yn unig a roddant chwareu teg i'r meddwl gyda golwg ar y gwirionedd. Felly gwnaeth y dynion enwog a enwyd. Darllenent y Bibl fel dynion yn ymofyn am y gwirionedd, ac nid fel rhai yn chwilio am brofion tros athrawiaethau a ddigwyddodd iddynt glywed a dysgu gan eu rhieni ac eraill. Dynion o feddwl gwrol, grymus a diragfarn

o'r fath hyn sydd yn cofleidio ein golygiadau crefyddol ni. Am hyny, nid yw ryfedd mai ychydig fel enwad ydym wedi bod addiar amser y Diwygiad oddiwrth Babyddiaeth. Ond yr ydym yn cynyddu yn mhob gwlad, ac os nad yw ein henwad proffesedig yn gwneuthur cymmaint o gynydd gweledig â'r enwadau poblogaidd, mae syniadau Undodaidd yn ymdaenu yn gyflym, yn gyflymach o lawer na'r rhai Trindodaidd. Mae rhyw beth yn y syniadau Undodaidd ag sydd mor naturiol, fel y maent yn ymgynyg o honynt eu hunain i bob dyn meddylgar. Synech i feddwl gymaint o Undodiaid sydd yn yr enwadau Trindodaidd! Er na wyr llawer o honynt mai Undodiaid ydynt; a synent eu hunain, yn ddigon tebyg, pe dywedid wrthynt mai felly y mae; ond nid ydyw yn llai gwir mai Undodiaid ydynt mewn syniad ac egwyddor. Mae yn ammhosibl cae allan, o gynulleidfaoedd, y syniadau Undodaidd. Diogeler y gynulleidfa â mur wedi ei wneyd o bum pwnc Calfin; gwneler pyrth pres oddiamgylch iddi o gredo Athanasius a'r Assembly's Catechism; bydded y bugeiliaid mor ofalus ag y bont yn nghylch athrawiaeth; brawychent y praidd faint y fynont âg enwau celyd am yr Undodiaid; galwent hwy yn "Sosiniaid" os mynant; dywedent, nes byddont wedi blino, ein bod yn "gwadu Crist," yn gwrthod y diafol, yn bychanu y Bibl, yn pwyso ar ein gweithredoedd da, ac felly yn y blaen, beiddiaf ddyweyd y treiddia Undodiaeth trwy y muriau calettaf at y gorlan oddi mewn, ac nid oes un bwbach yn ddigon hagr i darfu dynion oddiwrthi. Mae ein syniadau yn gwneuthur eu ffordd yn dawel, mae yn wir, ond yn anwrthwynebol, yn yr enwadau Trindodaidd eu hunain. Nid oes ychwaith un Coleg Trindodaidd yn y deyrnas hon, nac yn y byd Cristnogol, nad yw Undodiaeth yn cael rhyw dwll i fyned i mewn iddo. "Rhyw enwad bach ydych chwi yr Undodiaid," ac nid yw "Undodiaeth yn gwneyd dim cynydd!!" Mor fyr eu golwg yw y dynion sydd yn gwneyd yr haeriadau disail hyn. Dywedaf, rhwydd hynt i bawb offeiriaid, pregethwyr, ysgolfeistri, *lecturers*, ysgolion Sul—i bawb ac i bob peth sydd yn goleuo meddylian dynion. Pioneers ydych oll i Undodiaeth! Yr ydych yn gwastadu—yn rhwyddhau'r ffordd o'i blaen. Fe gwymp yr holl athrawiaethau gau gydag amser. Mae Calfiniaeth, credo Athanasius, a'r gwahanol gyfundraethau iawnol sydd yn y byd, yn mron atteb eu dyben. Wedi y gwnelont eu gwaith, tafl y Rhagluniaeth Fawr hwynt ymaith fel sorod diddefnydd mwy. Llosgir y gwair a'r soft, a'r coed—pob peth a adeiladwyd ar sylfaen Crist na ddal dân. Nid dim a saif y trial ond *aur*, *arian*, a *meini* gwerthfawr, neu mewn geiriau eraill, pob athrawiaeth ag sydd wedi ei sylfaenu ar y gwirionedd. Undod anrhanadwy y Duwdod, cariad tragwyddol y Tad, dwyfoldeb cenadwri yr Iesu, anfarwoldeb dyn, dydd barn, a'r bywyd mawr tragwyddol. Dyma'r athrawiaethau a ddaliant y prawf, ac ynddynt hwy y mae Undodiaeth Gristionogol yn gynnwysedig. Mor ardderchog ac mor helaeth yw y dyfodol sydd o'i blaen! D.

Gofynwyd i loerigyn yn Bedlam, sut y daeth yno? Attebodd, "Trwy dipyn o ddadl."—"Beth oedd y ddadl?" Attebodd, y Bedlamiad, "Fe ddywedodd y byd fy mod i wedi colli fy synwyrau; dywedais inau fod y byd wedi colli ei synwyrau, ond fe gafodd y byd y *majority*, ac felly yr wyf fi yma.

Y WEINYDDIAETH.

Yn awr, pan y mae yr etholfraint wedi ei dwyn i afael y dosparth gweithiol i raddau helaeth, mae'n naturiol i ddisgwyl y dymuniad am wybodaeth gwladwriaethol yn cynyddu yn eu plith. Pan nad oedd ganddynt yr un llais yn llywodraeth eu gwlad, o'r braidd y gallesid disgwyl eu gweled yn cymmeryd llawer o ddyddordeb ynddo. Bellach gallant deimlo eu pwysigrwydd. Gydag ychydig undeb rhyngddynt â'u gilydd gallant ddangos eu nerth. Bydded i'r syched am wybodaeth ddyfnhau, a bydded i'r Ymofynydd y fraint o gael gwneuthur ei ran i ddiwallu y syched hwn. Bydded i'r dewrion, a ddangosasant eu hunain yn ddewrion yn yr etholiad diweddaf, i fyned yn y blaen yn casglu gwybodaeth a nerth—nerth moesol a gwrol, Hwy—gallant deimlo fod ganddynt ddwylaw glân. Nid ydynt wedi aberthu eu hegwyddor a'u dynoliaeth ar allor Mammon. Yr oedd yn ofidus gweled cynnifer yn amser yr etholiad diweddaf yn syrthio i lawr i addoli y ddelw aur. Yr oedd yn ddolur calon. Ond oh, mae'n werth gwneuthur peth aberth er mwyn cael un gip olwg ar y cannoedd na wnai na scriw na dim arall iddynt blygu eu gliniau i Baal. Gyda golwg ar y rhai digalon, siaradwn lawer iawn am wroldeb ac egwyddor pan fo'r hin yn deg; ond gyd a llawer o honom mae'r cwbl yn diflanu pan ddel adeg prawf. Gallesid meddwl ambell dro mae rhyw gewri o ddynion ydyw llawer, y gorchfygasent bob profedigaeth; ond wele'r dydd yn d'od, a'r dyn yn diflanu yn y gwellt. Gwir yw "Mai gwellt yn ddiau ydyw'r bobl." Ond na, mae gwroniaid yn ein plith, a gwroniaid mewn perigl; ac y mae iddynt hwy eu gwobr. Cydwybod dawel, esmwyth. Nid oes gywilydd nac ofn wedi bod arnynt i wneuthur eu dyledswydd—i ufuddhau i eirchion eu cydwybodau. Yr oedd ganddynt egwyddor, a dangosasant fod ganddynt ewyllys i ddilyn eu hegwyddor liw dydd. Hwre! i ddewrion ein gwlad! Hwre! dair gwaith a thair i'r rhai a ddangosasant eu bod yn deilwng disgynyddion o'u cyndadau—a ddaliasant bwys a gwres y dydd. Y *Ballot* yn wir—mae'r hudlewyrn hwnw—ydyw, mae'r waedd am y Tugel wedi bod yn fwy o felldith—ond dyna, rhaid tewi, mae'r Golygydd drosto. At y pwnc.*

Llywyddir ein gwlad gan y Brenin neu'r Freuhines, a'r ddau Dy o Barliament. Adnabyddir y rhai hyn fel y *Three Estates of the Realm.* Dyledswyddau llywodraeth ydynt—gwneuthur, a gosod mewn grym, gyfreithiau'r wlad i'w phobl fel deiliaid, a'u cynrychioli fel teyrnas yn eu hymdrafodaeth a galluoedd tramor. Er gwneuthur cyfraith mae gwasanaeth y tri *Estate* yn angenrheidiol. Nis gellir gwisgo coron y deyrnas hon gan neb ond *Protestant.* Pe byddai i'n Brenhines briodi Pabydd collasai ei choron o'r foment hono. Cyfrifir person ein brenhines yn sanctaidd. Mae uwch law'r gyfraith. Nis gall un *Act of Parliament* ei rhwymo hi, os na fydd yn cynnwys geiriau pendant i'r perwyl hyny. Mae'n perthyn iddi lawer o ddyledswyddau. Yn mhlith pethau eraill ganddi hi mae'r gallu i ohirio'r Sanedd, set gosod terfyn ar ei eisteddiadau dros amser,

* Ni debygem nad yw'r awdwr ddim erioed wedi gwybod yn brofiadol beth yw bod dan scriw y tir-feistr. Pe buasai wedi cael ond un wasgad go dyn ganddi, dichon y byddai dipyn bach yn fwy teimladwy dros y rhai oedd odditani yn yr Etholiad diweddaf. Pan fyddo dyn, a chanddo wraig a haid o blant, mewn perigl o golli ei fywoliaeth am roddi ei *vote* yn ol ei ddymuniad, rhy galed yw dyweyd am dano ei fod yn aberthu ei egwyddor a'i ddynoliaeth ar allor Mammon. Gyda golwg ar y Ballot, nid ydym ni ddim drosti yn neilduol. Os gall yr awdwr i gynnyg rhyw fesur arall gwell na'r *ballot* i amddiffyn pleidleisiwr, yr ydym ni yn eithaf boddlon. Ond un peth sydd sicr, mae yn rhaid ei amddiffyn; rhaid iddo gael rhyddid i arferyd ei bleidlais fel y byddo yn gweled orau, heb fod neb yn beiddio gosod scriw arno. Heb hyn nid yw ei etholfraint ond moc. Os oes rhyw foddion wna well tro na'r ballot i roddi'r a ddiffyniad sydd eisiau, gadewch i ni gael y moddion hyny; ond os nad oes, gadewch i ni gael y ballot.—Gol.

a'i derfynu, a galw un newydd yn ei le. Hi ydyw uchelben y Llywodraeth, yr Eglwys, y Fyddin, a'r Llynges. Hi sydd yn anfon ac yn derbyn *Ambassadors*, yn cyhoeddi rhyfel, yn gwneuthur heddwch, &c. Hi all wrthod cydsynio a chyfreithiau f'ont wedi eu pasio gan y ddau Dy Seneddol, ond nid oes ganddi lais uniongyrchol yn y ddadleuaeth arnynt—mae'n rhaid iddi hi siarad trwy ei gweinyddwyr. Mae Ty'r Arglwyddi yn cael ei gyfrif yr Ail Estate. Mae'n cael ei wneuthur i fyny o 30 o'r Peers Ysbrydol a 427* o rai Tymmorol. Ty'r Cyffredin yw'r Trydydd Estate. A hwn mae a fynom ni fwyaf. Hwn mewn gwir sydd yn llywodraethau 'r wlad. Ië, y trydydd sydd flaenaf. Ewyllys y Trydydd sydd ben yn y pen draw. Bernid fod Alexander Fawr yn llywodraethu y byd; ond y gwir yw fod ei blentyn bach chwe' mlwydd oed, pan ai yn dac, yn fynych yn profi eu hun yn ben. Fel yma:—Yr oedd y plentyn bach yn ben ar y fam, y fam yn ben ar y brenhin, y brenhin yn ben ar y byd; felly yr oedd y plentyn yn ben ar y byd. Mae Ty'r Cyffredin yn cael ei wneuthur i fyny o 658 o aelodau: 467 yn Lloegr, 33 yng Nghymru, 105 yn Iwerddon, 53 yn Scotland. Saith mlynedd ydyw hyd un parliament wrth y gyfraith. Ar derfyn hyny o amser mae'n cael ei ddissolvo fel mater o gwrs; mae felly hefyd yn mhen chwe mis ar ol marwolaeth y Brenin neu'r Frenhines; mae gan y Brenin neu'r Frenhines awdurdod hefyd i'w ddissolvo ar unrhyw foment.

Mae'r Weinyddiaeth (Cabinet) yn cael ei ffurfio o ddynion o un o'r ddau Dy Seneddol. Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Goron ydyw'r Arglwydd Gangellydd. Mae'r Weinyddiaeth yn y cyffredin yn perthyn i ryw blaid neillduol. Mae'n derbyn swydd er cario allan rhyw gynllun neillduol. Gelwir y blaid wrthwynebol yr *Opposition*. Mae'r aelodau hyny sydd yn supporto'r Weinyddiaeth yn eistedd ar ddeheulaw cadair y *Speaker*† yn Nhy y Cyffredin, a'r blaid wrthwynebol ar yr aswy. Pan fyddo'r *Ministers* wedi gwasanaethu am dymmor o dair blynedd, mae ganddynt hawl i bension o £2000 dros eu bywyd pan fyddont yn reteiro. Mae y rhan amlaf o ddarllenwyr yr Ymofynydd wedi darllen enwau y rhai a ffurfient y Weinyddiaeth newydd. Ond gall fod o ddyddordeb iddynt etto yn y dyfodol, am hyny wele hwynt yn canlyn:—

Y WEINYDDIAETH.—Y CABINET.

YR HEN.	Y NEWYDD
Prif Arglwydd y Trysorlys (£5000).	
Mr. Disraeli.	Mr. Gladstone (Ganwyd 1809).
Arglwydd Ganghellydd (£10,000).	
Arg. Cairns.	Arg. Hatherley (G. 1801). (Syr W. P. Wood).
Arglwydd y Cynghor (£2,000).	
Duc Marlborough.	Arg. de Grey.
Arglwydd y Ddirgel-Sel (£2,000).	
Iarll Malmesbury.	Arg. Kimberley.
Canghellydd y Trysorlys (£5,000).	
Mr. W. Hunt.	Mr. Lowe (G. 1811).
Ysgrifenydd Cartrefol (£5,000).	
Mr. G. Hardy.	Mr. H. A. Bruce (G. 1815).
Ysgrifenydd Tramor (£5,000).	
Arg. Stanley.	Iarll Clarendon (G. 1800).

* Mae'r rhifedi'n amrywio o bryd i'w gilydd.
† Denison yw enw y Speaker presenol.

YR HEN.	Y NEWYDD.
Ysgrifenydd Trefedigaethau (£5,000).	
Duc Buckingham.	Iarll Granville (G. 1815).
Ysgrifenydd Rhyfel (£5,000).	
Syr J. Pakington.	Mr. Cardwell (G. 1813).
Ysgrifenydd Dros India (£5,000).	
Syr S. Northcote.	Duc Argyll (G. 1823).
Ysgrifenydd Dros Iwerddon (£).	
Cyrnel W. Patten.	Mr. C. Fortescue (G. 1823).
Prif Arglwydd y Morlys (£4,500).	
Mr. Corry.	Mr. Childers (G. 1827).
Llywydd Bwrdd Masnach (£2,000).	
Duc Richmond.	Mr. John Bright.
Prif Lythyrydd Cyffredinol (£).	
Duc Montrose.	Arg. Hartington
Llywydd Bwrdd Deddf y Tlodion (£2,000).	
Iarll Devon.	Mr. Goschen.

HEB FOD YN A CABINET

Arglwydd Weinydd.	
Iarll Tankerville.	Iarll Bessborough.
Arglwydd Siambr.	
Iarll Bradford.	Viscount Sidney.
Gweithfeydd ac Adeiladau.	
Arg. J. Manners.	Mr. Layard.
Cydysgrifenyddion y Trysorlys.	
Cyrnel Taylor. } Mr. Sclater Booth. }	{ Mr. G. Glyn. { Mr. Ayrton.
Arglwydd Raglan Iwerddon.	
Marquis Abercorn.	Iarll Spencer.
Arglwydd Ganghellydd Iwerddon.	
Mr. Brewster.	Mr. O'Hagan.
Trydydd Arg. y Trysorlys.	
——	Mr. Stansfield.
Twrnai Cyffredinol.	
Syr J. B. Carslake.	Syr R. Collyer.
Cyfreithiwr Cyffredinol.	
Syr R. Baggallay.	Mr. Coleridge.
Lord Advocate dros Scotland.	
Mr. Gordon.	Mr. Moncreiff.

Gyda chaniatad y Golygydd gwnewn ddychwelyd at y pwnc dro arall.

Cerdin.

AGORIAD Y SENEDD AC ARAETH Y FRENHINES.

Am ddau o'r gloch dydd Mawrth, yr 16eg o'r mis diweddaf, agorodd ei Mawrhydi y Senedd trwy Ddirprwyaeth, cynwysedig o yr Arglwydd Ganghellydd, Iarll de Grey a Ripon, Iarll Kimberley, Iarll Bessborough, ac Is Iarll Sydney. Yr oedd y Senedd wedi ei hagoryd yn ffurfiol ddydd Iau blaenorol, a gohirwyd hi hyd ddydd Mawrth. Oherwydd tegwch yr hin, yr oedd lluaws mawr wedi ymgasglu; yr oedd yr heolydd yn orlawn o bobl, y rhai a deimlent y dyddordeb mwyaf yn yr achos. Fe ddichon y disgwyliai rhai y buasai i'w Mawrhydi ei hunan fod yn bresenol. Modd bynag, meddyliai y lluaws fod rhyw beth anghyffredin i gymeryd lle. Wedi i Esgob Hereford ddarllen y gweddiau, gwysiodd Dygiedydd y Wialen Ddu aelodau Ty y Cyffredin at *far* Ty yr Arglwyddi i glywed y genadwri Fenhinol. Tua dwy ran o dair o'r aelodau oeddynt yn bresenol. Yn mysg y rhai mwyaf nodedig oeddynt yn absenol, yr oedd Mri. Gladstone, Bright, a Lowe, o ochr y weinyddiaeth, a Mr Disraeli o ochr y blaid wrthwynebol. Darllenodd yr Arglwydd Ganghellydd yr araeth mewn llais clir a rheolaidd.

Fy Arglwyddi a Boneddigion,

Yr wyf yn dychwelyd at eich cynghor yn yr adeg gyntaf a ganiateid mewn canlyniad i ymddiswyddiad y Weinyddiaeth ddiweddaf; a chyda dyddordeb neillduol yr wyf yn galw am adnewyddiad o'ch llafur pan y mae yr elfen boblogaidd yn y Llywodraeth wedi ei dewis er mantais i ddosbarth lluosog o'm deiliaid ufudd a theyrngarol.

Galluogir fi i'ch hysbysu fod fy mherthynas â gallueodd tramor yn parhau yn y telerau mwyaf cyfeillgar; ac yr wyf yn dawel hyderus eu bod yn gyfranog a mi mewn dymuniad am barhad heddwch. Bydd i mi bob amser roddi fy holl ddylanwad er hyrwyddo yr achos pwysig hwn.

Mewn cydweithrediad a'm cynghreiriad, ymdrechais, trwy gyfryngiad cyfeillgar i derfynu yr anghydfod a gyfododd rhwng Twrci a Groeg; ac y mae yn llawen genyf am fod ein cydymdrech yn yr achos wedi llwyddo i attal ymyriad peryglus yn y Dwyrain.

Yr wyf wedi bod mewn negeswriaeth ag Unol Daleithiau America gyda golwg ar benderfynu cwestiynau ag sydd yn bwysig i'r ddwy wlad; a'm gobaith difrifol ydyw y bydd i ganlyniad yr ymdrafodaeth gael ei osod ar gyfeillgarwch parhaol, yr hyn ddylai fod bob amser, rhwng Lloegr ac America.

Gyda gofid dwys y clywais am y terfysg a gyfododd yn New Zealand, a bod mewn un llanerch lawer o ysgelerder wedi cymmeryd lle. Hyderwyf na bydd Llywodraeth y Trefedigaethau na'r bobl yn ol mewn ymdrech i ddarostwng y terfysg, yn gystal ag mewn doethineb a chymmedroldeb mesurau i'w attal rhag llaw.

Foneddigion Ty y Cyffredin,

Bydd i amcangyfrifon o dreuliadau y flwyddyn ddyfodol gael eu cyflwyno i'ch sylw. Cawsant eu ffurfio gyda gofal am effeithiolrwydd y gwasanaeth cyhoeddus, a bydd iddynt arddangos lleihad yn y gofynion oddiar y wlad.

Fy Arglwyddi a Boneddigion,

Y mae anghhenion llawn a buddianau amrywiol y deyrnas o angenrheidrwydd yn rhwym o ddwyn lliaws o gwestiynau o wleidiadaeth boblogaidd o dan eich sylw.

Y mae sefyllfa Iwerddon yn rhoddi lle i mi gredu y gellwch arbed yr angenrheidrwydd poenus a deimlid gan y Senedd ddiweddaf o gyfyngu ar ryddid y wlad hono trwy gyfraith yr *habeas corpus*.

Yr wyf yn cynghori ar fod i chwi wneuthur ymchwiliad i'r dulliau presenol o ddwyn yn mlaen etholiadau seneddol a bwrdeisiol, ac i edrych ai ni ellid eu dwyn oddi amgylch yn fwy heddychlawn, pur, a rhyddfrydig.

Bydd i fesur gael ei ddwyn dan eich sylw er arbed rhai dosbarthiadau o berchenogion tai rhag cam mewn perthynas i drethiad, yr hwn, ymddengys, ellir ei wellhau.

Gelwir eich sylw hefyd at fesurau i estyn a gwellhau addysg yn Ysgotland, ac i beri fod cyllidau ysgolion gwaddoledig Lloegr yn cael eu gosod ar raddeg mwy cyffredinol effeithiol er addysgu.

Dygir mesur i mewn er cymhwyso yr egwyddor o gynrychioliad i reolaeth y dreth sirol, trwy sefydlu byrddau cyllidol yn y siroedd.

Cynygir i'ch ystyriaethau etto y pwnc o fethdaliad gyda golwg ar ddosbarthiad mwy teg ac effeithiol o fuddianau (*assets*), ac i ddiddymu carchariad am ddyled.

Bydd i'r trefniadau Eglwysig gyda golwg ar yr Iwerddon gael eu cyflwyno i'ch sylw yn gynar iawn; a bydd i'r moddion a gymmerir er dwyn yr achos i derfyniad teg hawlio doethineb mwyaf y Senedd. Yr wyf yn hyderus y bydd i chwi wrth ddwyn y gwaith hwnw yn mlaen gymmeryd gofal am bob meddiannau cyfreithlawn a gynnwysir ynddo, ac y llywodraethir chwi gan awydd parhaus i hyrwyddo achos crefydd trwy yr egwyddorion o gydraddoldeb, i sicrhau barn a theimlad personol yr Iwerddon o dy cyfraith a theyrngarwch, i ddileu coffadwriaeth pob ymryson blaenorol, ac i ennyn cydymdeimlad pobl serchoglawn.

Mewn pob achos o ddyddordeb cyhoeddus, ac yn neillduol, mewn un mor bwysfawr, yr wyf yn erfyn na byddo i'r Hollalluog byth beidio gwylio eich gweithrediadau, a'u dwyn i derfyniad hapus.

Wedi darllen yr araeth gohiriwyd y Ty hyd bump o'r gloch. Cynnygiwyd yr anerchiad mewn attebiad iddi yn Nhy yr Arglwyddi gan Iarll Carysford, yr hyn a eiliwyd gan Is-Iarll Monck, a dilynwyd hwy ar ran y blaid wrthwynebol gan Arglwydd Cairns, ac ar ran y Weinyddiaeth gan Iarll Granville, a derbyniwyd hi. Aethpwyd trwy yr un ddefod yn Nhy y Cyffredin, pryd y cynnygiwyd gan Mr. H. Cowper, ac a eiliwyd gan Mr. Mundella, yr aelod newydd dros Sheffield, a chynnrychiolydd y dosbarth gweithiol. Cyfododd Mr. Disraeli dros yr ochr arall, a Mr. Gladstone dros y Llywodraeth, i wneyd sylwadau pellach, a mabwysiadwyd yr anerchiad. Amlygai Mr. White ei ofid am nad oedd un cyfeiriad yn yr araeth at achos Yspaen. Rhoddwyd eglurhad ar y pwnc gan y Prif Weinidog.

Y mae rhybuddion am luaws o Fesurau y bwriedir eu dwyn yn mlaen, eisioes wedi eu rhoddi. Yn eu mysg, y pwysicaf ydyw rhybudd y Prif Weinidog y bydd iddo ddwyn yn mlaen ei gynnyg gyda golwg ar Eglwys Sefydledig yr Iwerddon, yn nghyda gwaddoliad Maynooth, ar y laf o Fawrth.

Tad yn ceryddu ei blentyn am aros maes yn hwyr, a ddywedodd, "Beth, pan oeddwn i yn dy oedran di, ni chaniatai nhad i fi fod o'r tŷ ar ol tywyll." Yr hogyn, gan ddirmyg-wenu, atebodd, "Yr oedd gennych dad gwerthfawr." "Tad," ebe y tad yn ddifeddwl, "yr oedd genyf lawer gwell tad na sydd gennyt ti."

Ysgol Sabothol Pantydefaid. — Dydd Mawrth, y 12fed o Ionawr diweddaf, cynaliodd Ysgol Sabothol Pantydefaid ei gwyl dê flynyddol. Yr oedd y capel wedi ei addurno erbyn yr achlysur â chyflawnder mawr o *evergreens*. Yr oedd rhifedi yr ysgolheigion rhwng cant a chwech ugain. Treuliwyd y bore i wrandaw ar adroddiadau'r plant, y rhai a aethant trwy eu gorchwyl mewn modd hwylus a theilwng o gymeradwyaeth. Adroddwyd oddeutu tri-ugain o wahanol ddarnau mewn rhyddiaith a phrydyddiaeth. Bu côr y Dyffryn a chôr Llandyssul mor garedig a rhoddi eu gwasanaeth ar y pryd, a chanasant amryw donau tra chywrain. Wedi gorphen yr adrodd a'r canu anerchwyd yr ysgolheigion yng nghyd â'r dorf luosog o wrandawyr oeddent yn bresenol mewn modd grymus ac effeithiol gan y Parch. W. Thomas, A.C., Mr. David Thomas, un o athrawon yr ysgol, a Mr. David Daniel, Caeglas, ger Llanwnen. Treuliwyd y prydnawn o amgylch y ford dê, yr hon oedd wedi eu hulio yn llwythog â phob peth angenrheidiol at yr achos gan ddau neu dri o aelodau'r gyn'lleidfa a chyfeillion caredig eraill yn y gymydogaeth. Ni roddaf yr ysgrifell o'm llaw heb ddiolch yn gyntaf i'r athrawon rhagorol am eu gofal a'u trafferth i ddysgu'r plant. Yr wyf yn credu fod eu calon yn y gwaith, ac am hyny y parhânt i roddi eu gwasanaeth tra y gallont. Y maent eisioes wedi gwneuthur daioni mawr, a Duw a'u gwobrwyo am hyny. Gobeithio hefyd na wna'r ysgolheigion esgeuluso eu cydgynulliad fel y byddo'r cyfarfod blynyddol nesaf i droi allan yr un mor llwyddianus â'r un sydd wedi pasio. Dylai rhieni roddi pob anogaeth i'w plant i gyrchu i'r Ysgol Sul. Trueni esgeuluso cyfleusderau pan yn cael eu cynyg.—Un oedd yno.

Dymunir yn barchus i ddwyn ar gof i'r gweinidogion a phawb eraill y cynhelir y Cwrdd Cwarter nesaf yn Llwynrhydowen, ger Llandyssul, ar y Mercher a'r Iau cyntaf ar ol Sul y Pasg, sef y dydd diweddaf o Fawrth a'r dydd cyntaf o Ebrill. Bydd i Gwrdd Cyhoeddus gael ei gynal yn y Llwyn y prydnawn cyntaf am haner awr wedi dau, ac yn yr hwyr yn Llandyssul. Dranoeth, dechreua'r cyfarfod yn y Llwyn am haner awr wedi deg. Y Parch. R. J. Jones, M.A., i bregethu. Testun y gynadledd: "Rhagluniaeth." Bydd yn llon gan y gweinidog a'r gynulleidfa i weled eu cyfeillion o bell ac agos ar yr achlysur.

Awgrym i Weinidogion.—Yr oedd yr offeiriad newydd yn ymddangos yn ddyn da iawn, a phawb yn y pentref yn ei *leico* yn fawr, ond yr oedd yn arfer rhyw eiriau mor ddwfn yn ei bregethau fel na allai'r bobl ei ddeall. O'r diwedd darfu i hen wraig gymmeryd y mater mewn llaw, a gofynodd iddo, "Attolwg, Syr, a allwch chi ddyweyd beth yw swydd bugail da?" "Porthi'r defaid, yn siwr, yr hen wraig," oedd yr atteb. "Os felly, Syr," ebe hi, "p'am yr ydych yn dodi y gwair cuwch fel na all y defaid ei gyrhaedd?" "Wel, yr hen wraig, os nad wyf fi wedi rhoddi pregeth i chi, yr ydych chi wedi rhoi pregeth i mi, ac mi dreiaf o hyn allan osod y gwair o fewn cyrhaedd y defaid."

Y TAFOD A'R GALON.

Am Meistr *Tongue*—gwr enwog yw,
Yn *Babbleton** yr oedd yn byw;
Llawn melldith oedd a llawn drygioni,
'Roedd pawb o leia'n d'wedyd hyny.
A'r hyn dd'wed pawb, mae'n eitha' gwir,
Addefir hyn er's amser hir.
Fe ddaliwyd *Tongue* a dygwyd ef
O flaen yr Ustus lawr i'r dref.
'Doedd ynddo'n siwr ddim diffyg *sense*,
Na diffyg chwaith o *impudence*.
Ac fel y gweddai i un mor falch,
Ei *gase* ei hun fe blediai'r gwalch.

"Nghymmydog *Heart*" 'be Mr. *Tongue*,
"Sy'n t'arwain i o hyd i'r *wrong*.
Buaswn cystal llawn yn wir
A'r meistriaid *Nose* neu *Eye* neu *Ear*,
Pe caffai *Heart* sy'n byw îs lawr
Ei wneyd i gyd o'r newydd nawr.
Rhy ddrwg i mi gael dioddef *wrong*
"Cymmydog *Heart*," 'Be Mr. *Tongue*.

Addefodd pawb, y *Judge* a'r *Jury*
Ei *gase* yn eithaf da gan hyny.
A d'wedent "Tra mae *Heart* mor *wrong*
Nis gall dim da dd'od oddiwrth y *Tongue*.
Y goreu peth i'w wneyd bob pryd
Yw codi'r drwg o'r gwraidd i gyd,
A *Heart*—rhaid ei gyfnewid e'
Cyn byth ceir *Tongue* yn ail i'w le."

C. M.

Daeth menyw unwaith at Dr. Abernethy i ymofyn am gynghor. Estynodd ei llaw o'i flaen, a dywedodd "Llosgiad;" "*Poultice*," ebe'r doctor. Yr ail ddiwrnod daeth y fenyw a dywedodd, "Yn well." Yr ateb, "Parhewch y *poultice*." Daeth drachefn at y Doctor yn mhen wythnos, a dywedodd "Talu." "Dim," oedd yr ateb. "Ch'i yw'r fenyw galla welais i erioed."

PRIODWYD.

Ionawr 23, yn Nghastellnedd, Mr. Henry Jenkins, mab Mr. Rosser Jenkins, o'r Fforchgoch, Cwmnedd, â Miss Sarah Hopkins, y ddau o'r un lle. Gellir dywedyd am danynt yn ngeiriau yr hen Fardd gynt o ddyffryn Aberdâr, sef L. Hopkin:—

"Dau gydradd wiwradd warant,
Mewn oedran, dysc, a meddiant,
I'm deall i sydd oreu'n mhell,
'Rwi'n synio yn well cydsyniant."

Blaengwrach. Jenkin Williams.

---

* Pentref Cleber.

BU FARW.

Rhagfyr 28, 1868, John Evans, saer, Pontnewydd, yn 67 oed. Gadawodd weddw a phlant a llawer o gyfeillion i alaru ar ei ol. Collodd ei blant dad tirion, a'i weddw, briod ffyddlon. Rhoddodd iddynt gynghorion ac esiampl da. Nerth a gelont i'w cadw, a Thad y weddw a'r amddifad a'u hymgeleddo Yr oedd yn ddyn tawel a phwyllog, ac a berchid gan bawb a'i hadwaenent. Meddai ar synwyr cryf a lleferydd rhwydd, a'r hyn a lefarai, byddai i'r pwrpas, ac am hyny cae wrandawiad yn wastad. Cafodd eglwys Ciliau golled fawr ar ei ol. Bu yn aelod selog a defnyddiol yno am ddeng mlynedd ar hugain, ac am bum mlynedd ar hugain yn ddiacon. Ar y dydd diweddaf o'r flwyddyn daeth tyrfa liosog o gyfeillion a pherthynasau yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Cyn cychwyn o'r ty, pregethodd y Parch. W. Rees, o Rydygwin, oddiwrth 1 Cor. iii. 10, 11, a chladdwyd ef gyda'i deidau yn mynwent eglwys plwyf Ciliau, mewn gwir ddiogel obaith am adgyfodiad i fywyd gwell.—G.

Dydd Iau, yr 28ain o Ionawr diweddaf, bu farw Jenkin Thomas, Penbont, Rhydowen Shop, yn 37 oed. Bu yn gystuddiol am flynyddau meithion. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol ym Mhantydefaid. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. W. Thomas, A.C., Llwynrhydowen.

Boreu dydd Llun, Chwefror 1af, taflwyd trigolion Llandilo a'r gym'dogaeth i fraw a syndod, gan y newydd pruddaidd a galarus o farwolaeth sydyn a braidd annysgwyliadwy, Mrs. Elizabeth Jones, Ivy Bush, Tŵy Terrace, Llandilo, yn 63 mlwydd oed. Perchid hi yn fwyaf gan y rhai a'i hadwaenent oreu; ac mae ei henw yn barchus ac anwyl gan holl bregethwyr a gweinidogion Undodaidd Cymru. Derbyniwyd hi yn aelod yn mhlith yr Undodiaid yn Llandyfân, tua 40 mlynedd yn ol, dan weinidogaeth y diweddar Barch. John Griffiths, Llandybie, pryd y bedyddiwyd hi dan brofles o'i ffydd yn Mab Duw. Yr oedd yn fenyw hynaws a charedig; ac yn ei mharwolaeth cafodd cynulleidfa yr Onen Fawr golled nid bychan, o herwydd yr oedd ei drws yn agored, yn nghyd â chyflawn roesaw i'r gweinidogion a'r mytyrwyr alw gyda hi bob amser. Yr oedd hefyd yn ddynes dreiddgar a chraffus, braidd yn rhagori ar y cyffredin o ferched Efa. Dydd Iau canlynol, ymgasglodd torf luosog yn nghyd i dalu y gymwynas olaf i'w gweddillion marwol, pryd y darllenwyd a gweddiwyd, ac y traddodwyd anerchiad hynod o bwrpasol gan y Parch D. L. Evans, Caerfyrddin, ar yr achlysur, cyn codi'r corff o'r ty. Yr oedd yn anhwylus i raddau er ys rhai blynyddau, gan ei bod yn dueddol ar brydiau i gael llewygon, ond ni feddyliodd ei chyfeillion na'i pherthynasau fod ei diwedd mor agos, ond mae amcanion yr *Hwn* sydd â'i "ffyrdd yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfnion donau," yn wahanol iawn i'r eiddom ni farwolion gwael y llawr. Bydded i gyfeillion a pherthynasau yr ymadawedig i sychu eu dagrau ac ymgysuro, a pheidio a wylo megis rhai heb obaith, ond ymbaratoi un ac oll erbyn yr un siwrnau bell.

Y fwynaidd dawel fenyw,—adawodd
Y byd drwg a'i ystryw;
Ei henw sydd—e fydd yn fyw,
Odiaeth ac anwyl ydyw.

Ei pharch dwfn i "deulu'r ffydd,"—a gafwyd
Gyda gofal beunydd;
Perl o'r nef oedd ei chrefydd,
A ddeil brawf yr olaf ddydd.

Hon weithian sydd yn huno,—yn y bedd
Yno bydd nes galwo
Angel Duw ei engyl o
Dir ing a daear ango'.

Llandebie. RHYDDERCH.

AT EIN GOHEBWYR A'N DERBYNWYR.

Mae yn ein meddiant amryw ysgrifau. Dichon fod eu hawdwyr yn rhyfeddu paham na byddent wedi cael eu cyhoeddi. Rhaid i ni sylwi etto ein bod yn ddiolchgar iawn am bob cynhorthwy llëenyddol, ond os bydd yn rhaid i ni ail ysgrifenu ysgrif cyn y byddo yn weddol addas i'r wasgc, nid ydym yn ystyried ysgrifau o'r fath yn gynhorthwy. Nid oes un ysgrif o gyfansoddiad gofalus a ddanfonwyd attom wedi bod yn hir iawn cyn ymddangos yn yr Ymofynydd. Gyda golwg ar ddarlithiau damhegol (*metaphorical*), oni fyddant yn weddol i'r pwrpas, gwell genym fod hebddynt.

Ni fyddai hanes bywyd Reuben Davies, neu "Reuben brydydd y coed," yn fyr a chynhwysfawr, yn annerbyniol. Gwell fyddai i awdwr y llythyrau attom, gyfansoddi bywgraphiad o'r fath ei hunan, na cheisio gan arall. Mae efe yn llawn mor abl i wneuthur y gwaith â'r hwn y ceisia ganddo.

Derbyniwyd taliad am yr YMOFYNYDD o'r llefydd canlynol:—

THOMAS THOMAS, YSGRIFENYDD.

	£	s.	d.
Cwmafon	0	14	0
Cellan	1	14	6
Cribin	0	8	0
Morriston	0	6	6
Swansea	0	4	9
Blaenllechau	0	4	0
Pantydefaid	4	7	6
Cilie	1	2	0
Cil-llidiart	0	0	8
Tongwynlais	0	7	11
Pitcot Cottage	0	11	8
Troedrhiw, Merthyr	0	10	0
Bwlchfadfa	0	15	0
Liverpool, D.J.P.	0	13	9
Trefforest	0	1	4
Gellyonen	2	19	0
Newcastle	1	6	0
Rhydygwin	1	10	6
Nottage	0	12	6
Cefncoedycymer	2	3	0
Castle St., Liverpool	0	7	0
Pontypridd	0	7	0
Llanelly	0	11	6
Capelygroes	1	15	0
Llwynrhydowen	1	3	0
Cwmbach	1	11	6
Rhydyparc	0	14	6
Rhymney	0	8	0
Aberdar	4	9	6
Llandyssul	1	4	0

DANFONWYD I'R GOLYGYDD:—

Merthyr	1	3	6
Caerfyrddin	0	13	3½
St. Clears	0	5	0
Taibach (Gogledd)	0	1	3
Dublin	0	2	0